



Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach

AMCANION 2028

1 Rhagair



Gan **Jonathan Simms, Cadeirydd Pwyllgor Fferyllol Cymru**

*Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach (PDaHW)*¹ yw gweledigaeth gweithwyr fferylliaeth proffesiynol ar gyfer 2030, wedi'i alinio â 'Chymru Iachach'² mae'n amlinellu uchelgeisiau hirdymor ar gyfer sut y bydd cleifion yng Nghymru yn elwa ymhellach o arbenigedd timau fferylliaeth. Fe'i cyhoeddwyd yn gyntaf yn 2019, ac mae'r weledigaeth yn benllanw ymgysylltiad helaeth â'r proffesiwn a rhanddeiliaid ledled Cymru, ac mae'r ddogfen atodol ddiweddaraf hon wedi dilyn yr un trywydd cydweithredol hwnnw.

Ers lansio'r ddogfen yn 2019, mae amcanion dros dro ar gyfer 2022 wedi helpu i gynnal momentwm tuag at weledigaeth 2030. Er gwaethaf heriau aruthrol pandemig Covid-19, gwnaeth y proffesiwn gynnydd rhyfeddol, prawf ysbrydoledig o'i ymroddiad yn ystod amseroedd ansicr. Mae amcanion 2022 wedi'u hadolygu ers hynny, ac mae cerrig milltir newydd wedi'u gosod ar gyfer 2025. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r proffesiwn wedi parhau i gymryd camau breision tuag at y targedau hynny.

Mae wedi bod yn bleser gweld bwrdd cyflawni rhaglen PDaHW, wrth yrru cynnydd, yn cadw golwg craff ar amcanion, ac uwchgyfeirio heriau i Bwyllgor Fferyllol Cymru lle bo angen. Mae'r bwrdd cyflawni wedi'i gefnogi a'i gynnal yn fedrus gan waith y pedwar is-grŵp gweithredol, sy'n cyd-fynd â phob thema o'r weledigaeth. Mae aelodaeth yr is-grwpiau gwaith a'r bwrdd cyflawni yn gynrychioliadol o'r amrywiaeth ar draws y proffesiwn, gyda chydbwysedd ar draws y sector, yn ddaearyddol ac yn ôl rôl swydd, ynghyd ag aelodaeth ehangach o grwpiau cleifion a'r partneriaid strategol allweddol a rhanddeiliaid sy'n hanfodol ar gyfer datblygu'r weledigaeth.

Amlinella'r ddogfen hon amcanion newydd 2028, sy'n cynnig camau pellach ar y ffordd tuag at ein gweledigaeth gyffredinol ar gyfer 2030. Bydd yr amcanion hyn yn cefnogi ymhellach datblygiad y proffesiwn, yn sicrhau ein bod yn defnyddio sgiliau'r tîm fferylliaeth cyfan yn llawn ac yn sicrhau ein bod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran cyflawni technolegau a meddyginiaethau arloesol ac sy'n dod i'r amlwg, er budd pobl Cymru. Mae'r amcanion hyn wedi'u llunio gyda chymorth cannoedd o weithwyr fferylliaeth proffesiynol, aelodau ehangach o'r tîm fferylliaeth, myfyrwyr israddedig, grwpiau sy'n cynrychioli cleifion a phroffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Mae cryfder y weledigaeth yn gorwedd yng nghyfraniad ac angerdd y proffesiwn i sicrhau'r gofal gorau posibl i gleifion.

Mae'r ddogfen yn dangos y cynnydd enfawr a wnaed hyd yma gan y proffesiwn wrth helpu i gyflawni amcanion 2025 ac mae'n dathlu llwyddiant yr holl gyflawniadau hynny. Bydd cyflawni amcanion 2028 yn sicrhau lledaeniad a graddfa wrth gyflawni gwasanaethau fferyllol, gan sicrhau bod gan bobl Cymru fynediad teg at wasanaethau a gofal fferyllol gorau posibl, ble bynnag y maent yn byw a sut bynnag y maent yn cyrchu'r gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, dim ond yn yr amgylchedd cywir y gellir gwireddu'r uchelgeisiau hyn, un sydd â buddsoddiad digonol mewn gwasanaethau fferyllol, gweithlu cynaliadwy a seilwaith digidol cadarn.

Fel cadeirydd Pwyllgor Fferyllol Cymru, rwy'n hynod falch o gynnydd ac ymrwymiad y proffesiwn wrth ddatblygu'r weledigaeth hon a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad amcanion newydd 2028.

Byddaf yn camu i lawr fel cadeirydd y pwyllgor eleni ond byddaf yn parhau i gymryd rhan fel cynrychiolydd Cyfarwyddwr Fferylliaeth ac edrychaf ymlaen at gamau nesaf ein siwrnai tuag at weledigaeth 2030.

1. Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach (2019), Ar gael o: <https://www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Policy/Pharmacy%20Vision%20Cymraeg.pdf?ver=2020-01-24-132300-063>
2. Cymru Iachach (2018), Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

Cynnwys

1.	RHAGAIR	02
2.	CEFNDIR A CHYD-DESTUN STRATEGOL	04
3.	CYFOETHOGI PROFIAD Y CLAF	07
4.	DATBLYGU'R GWEITHLU FFERYLLIAETH	18
5.	GOFAL FFERYLLOL DI-DOR	28
6.	HARNEISIO ARLOESED, DATA A THECHNOLEG	34
7.	ATODIAD 1 – AMCANION 2028	41

2 Cefndir a Chyd-destun Strategol

Mae'r iteriad diweddaraf hwn o weledigaeth hirdymor y proffesiynau fferyllol yn adnewyddu ac yn adeiladu ar 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach' (PDaHW)¹ a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2019, ynghyd â'r ddogfen wedi'i diweddarau³ a gyhoeddwyd yn 2022. Datblygwyd y ddogfen ar ôl ymgysylltu'n helaeth â thros 500 o fferyllwyr, technegwyr fferyllfa ac aelodau eraill o dimau fferylliaeth sy'n ymarfer ym mhob rhan o Gymru, ynghyd â rhanddeiliaid a chyrrff sy'n cynrychioli cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

Ers cyhoeddi PDaHW yn 2019, bu newid aruthrol ym mhob agwedd ar ymarfer fferyllol yng Nghymru, ac mae timau fferylliaeth wedi cyflawni llawer iawn wrth helpu i gyflawni'r cyfeiriad strategol a nodir yn y weledigaeth. Mae'r diweddariad newydd hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr a dathlu llwyddiannau niferus timau fferylliaeth yn y chwe blynedd ers cyhoeddi PDaHW, gan ein bod wedi gweithio i gyflawni amcanion uchelgeisiol a osodwyd ar gyfer 2022, 2025 a 2030. Dyma gynnyrch y myfyrdodau hynny a thrwy ymgysylltu â thimau fferylliaeth a rhanddeiliaid, mae'n amlinellu amcanion dros dro newydd i'w cyflawni erbyn 2028, wrth gynnal y ffocws ar gyflawni'r nodau trosfwaol hyd at 2030.

Er bod y cynnydd a wnaed eisoes wedi bod yn sylweddol, mae heriau arwyddocaol wedi bod ac yn parhau, i weithwyr fferylliaeth proffesiynol a'u timau ym mhob lleoliad. Mae'r galw am sgiliau ac arbenigedd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol yn uwch nag erioed o'r blaen, yn cael eu sbarduno gan wireddu'r buddion sy'n codi pan fydd fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa yn ymwneud yn agos â chyflawni gofal. Yn gyffredin â phroffesiynau gofal iechyd eraill, mae pwysau gweithlu yn parhau i fod yn uchel, a phrofwyd heriau recriwtio ym mhob lleoliad. Mae pwysau ariannol a hinsawdd economaidd heriol yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau fferyllol yn fwyaf arbennig yn dylanwadu ar y gostyngiad yn nifer y fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru. Mae data a ddarparwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW)⁴, yn dangos rhwng Gorffennaf 2020 ac Ebrill 2024, caeodd 27 fferyllfa yng Nghymru, gan leihau'r nifer cyffredinol i 686.

Ochr yn ochr â'r heriau hyn mae cyfleoedd a fydd yn galluogi ac yn cefnogi'r proffesiynau fferylliaeth yng Nghymru i gyflawni ei weledigaeth ar y cyd. Y newidiadau deddfwriaethol sydd eisoes yn galluogi technegwyr fferyllfa i gyflenwi a rhoi

3. Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach, Amcanion 2025 (2022), Ar gael o: <https://www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Wales/Wales%20Vision%20brochure%20WELSH.pdf?ver=guIyBEu0IIA8kIWGLALwRA%3d%3d>

4. Sicrhau Cynaliadwyedd Fferylliaeth Gymunedol yng Nghymru, Ar gael o: <https://cpwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/03/Spring-Conference-2024.pdf>

meddyginiaethau heb bresgripsiwn, a'r newidiadau i addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr sy'n golygu y bydd pob fferylllydd sy'n cofrestru o hydref 2026 yn gwneud hynny fel rhagnodwyr, ac yn ystod y cylch nesaf o gyflawni ein gweledigaeth, yn hwyluso ehangu cyflym mewn rolau clinigol ymreolaethol.

Bydd cadwyni cyflenwi meddygaeth yn cael eu trawsnewid gan newidiadau rheoliadol sy'n galluogi dosbarthu meddyginiaeth pecyn gwreiddiol trwy brif ganolfan a lloerennau, drwy reoliadau sy'n llywodraethu'r pwynt o weithgynhyrchu gofal cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch, ynghyd â'r newidiadau i oruchwyliaeth cyflenwi meddyginiaethau o fferyllfeydd.⁵

Fel mewn fersiynau blaenorol o PDaHW, mae'r ddogfen hon yn disgrifio dyheadau'r proffesiynau i ddarparu gofal fferyllol o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion cleifion, y cyhoedd a'r GIG yng Nghymru. Mae'r amcanion yn fwriadol uchelgeisiol a chânt eu cyflawni dim ond os yw'r amgylchedd gwleidyddol, ariannol a phroffesiynol ehangach yn cefnogi cyflawni. Mae sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn arloesol, yn diwallu anghenion cleifion, ac yn gynaliadwy yn ariannol yn hanfodol, yn ogystal â buddsoddiad digonol i ddatblygu gweithlu cynaliadwy ac adeiladu'r seilwaith sylfaenol. Bydd cyflawni'r amcanion o fewn y weledigaeth hon yn mynd yn bell tuag at gyflawni'r trawsnewidiad sydd ei angen ar gyfer gwasanaethau fferyllol cynaliadwy ym mhob sector, yn unol â blaenoriaethau'r GIG.

Ers 2022, mae nifer o ddogfennau strategol allweddol wedi'u cyhoeddi sy'n cyd-fynd â PDaHW. Bydd y rhain yn parhau i helpu i hyrwyddo uchelgeisiau'r proffesiynau yn y tair blynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwynodd fframwaith cytundebol newydd ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru – 'Presgripsiwn Newydd',⁶ a weithredwyd ym mis Ebrill 2022, ddiwygiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r GIG yn gweithio gyda fferyllfeydd cymunedol, gan annog darparu gwasanaethau clinigol a hyrwyddo integreiddio â chontractwyr gofal sylfaenol eraill, y GIG a gofal cymdeithasol.
- Amlinella 'Adolygiad Annibynnol Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol yn Ysbytai y GIG yng Nghymru',⁷ mewn ymateb i adroddiad a gomisïynwyd gan y Gymdeithas

Fferyllol Frenhinol (RPS)⁸, gyfres o gamau gweithredu strategol allweddol ar draws pedair thema gyda'r bwriad o sicrhau trawsnewidiad mewn ymarfer fferylliaeth glinigol sy'n ofynnol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn elfen hanfodol o ofal ysbyty o ansawdd uchel, gan helpu i wella canlyniadau iechyd ac atal niwed y gellir ei osgoi.

- Mae'r 'Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth'⁹ a ddatblygwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gyda phartneriaid, yn amlinellu'r camau angenrheidiol i ddatblygu'r gweithlu fferylliaeth yng Nghymru. Mae'r cynllun yn darparu glasbrint ar gyfer sbarduno newid radical a gwelliannau cynhwysfawr yn y ffordd yr ydym yn datblygu, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gweithlu fferylliaeth, wrth gydnabod rôl gynyddol yr arweinyddiaeth glinigol y maent yn ei chwarae wrth ofalu am bobl sy'n defnyddio meddyginiaethau, mewn amrywiaeth o leoliadau.
- Mae 'Cymru Iachach',² a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2018 gyda chamau gweithredu wedi'u diweddaru yn cael eu cyhoeddi yn 2024, yn amlinellu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol o 'ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol', sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch. Amlinella PDaHW sut y gall fferylliaeth helpu i gyflawni gweledigaeth hirdymor y Llywodraeth.

5. Ymateb ymgynghori goruchwyliaeth fferylliaeth, DHSC, 2025, Ar gael o: <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6877c9a7760bf6cedaf5bd5c/pharmacy-supervision-consultation-response-17-july-2025.pdf>

6. Presgripsiwn Newydd (2021) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/dyfodol-fferylliaeth-gymunedol-yng-nghymru-presgripsiwn-newydd_0.pdf

7. Adolygiad annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru (2023), Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-09/fferylliaeth-glinigol.pdf>

8. Rhagnodi Cynnydd, Trawsnewid Fferylliaeth Glinigol Ysbyty yng Nghymru ar gyfer Gwell Gofal Cleifion (2023), Ar gael gan: <https://www.rpharms.com/hospital-review-wales>

9. Cynllun Strategol AaGIC ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth, Ar gael o: <https://aagic.gig.cymru/files/strategic-workforce-plan/>

- Canolbwyntiodd 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015',¹⁰ ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin sy'n rhwymo'n gyfreithiol – y saith nod llesiant – ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n rhoi manylion y ffyrdd y mae'n rhaid i rai cyrrff cyhoeddus weithio a chydweithio i wella llesiant Cymru.



10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Ar gael o: <https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethau-r-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethau-r-dyfodol-2015/>

3 Cyfoethogi Profiad y Claf

Mae'r weledigaeth ar gyfer fferylliaeth hyd at 2030 yn canolbwyntio ar gynllunio gwasanaethau o amgylch anghenion cleifion. Mae egwyddorion sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y claf yn parhau yn sylfaenol, gan dywys y proffesiwn wrth iddo ehangu i gyflawni gwasanaeth clinigol.

Yn unol â 'Chymru Iachach'², mae timau fferylliaeth wedi darparu gwasanaethau clinigol yn gynyddol yn nes at y cartref, gan wella mynediad a chanlyniadau cleifion. Bydd y newid hwn yn

parhau, gan ganolbwyntio'n fwy ar ddarparu gwasanaethau teg ledled Cymru dros y tair blynedd nesaf.

Mae mynediad teg eisoes wedi gwella. Mae newidiadau diweddar i'r Fframwaith Contractau Fferylliaeth Gymunedol (CPCF) wedi gweld y Profi a Thrin Dolor Gwddf (STTT), a'r gwasanaethau Heintiau Triniaeth Wrinol (UTI) yn dod yn elfennau gorfodol o Wasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol (CCP), yn dilyn buddsoddiad o £6 miliwn mewn fferylliaeth gymunedol gan Lywodraeth Cymru. Mae AaGIC wedi hwyluso hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y fferyllwyr sy'n rhagnodi ar gyfer cleifion ym mhob lleoliad. Mae'r ffeithlun canlynol (ffigur 1) yn dangos y nifer cynyddol o fferyllwyr sydd wedi derbyn cyllid gan AaGIC i ymgymryd â hyfforddiant rhagnodi annibynnol ers 2021.

FFIGWR 1 - LLEDAENIAD SECTOROL FFERYLLWYR SY'N DERBYN CYLLID TRWY AAGIC I YMGYMRD Â HYFFORDDIANT.



Mae gwell cydweithio a gweithio fel tîm amlddisgyblaethol gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn parhau i fod yn hanfodol i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sy'n chwarae rhan lawn wrth wella iechyd a llesiant pobl; bydd angen cryfhau hyn yn ystod y tair blynedd nesaf i sicrhau bod anghenion gofal iechyd cleifion yn cael eu diwallu gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol, ac yn y lleoliad mwyaf priodol.

Mae technegwyr fferyllfa bellach yn darparu mwy o wasanaethau sy'n wynebu cleifion gan gynnwys brechiadau fflwi, Adolygiadau Meddyginiaethau wrth Ryddhau (DMRs) a mynediad at atal cenhedlu brys a phontio mewn fferyllfa gymunedol. Mewn ysbytai maent yn cefnogi gwella'r ffordd y mae meddyginiaethau'n cael eu defnyddio ac yn arwain clinigau. Mae nifer y technegwyr fferyllfa mewn practisau meddygon teulu wedi cynyddu wrth iddynt gefnogi fferyllwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a chleifion gydag agweddau ymarferol ar reoli meddyginiaethau.

Mae cleifion yn teimlo manteision datblygiadau sylweddol yn y seilwaith digidol o fewn GIG Cymru yn gynyddol wrth i gynydd fynd rhagddo i ddigido'n llawn sut mae meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi a'u dosbarthu. Cafodd y presgripsiwn electronig cyntaf o fewn gofal sylfaenol ei gyhoeddi mewn practis Meddyg Teulu a'i ddosbarthu mewn fferyllfa gymunedol yn y Rhyl, Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2023 a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd y diweddaraf i ddechrau cyflwyno presgripsiynau electronig a rhoi meddyginiaethau (ePMA) yn ei ysbytai ym mis Gorffennaf 2025. Bydd systemau rhagnodi digidol yn gwella diogelwch ac effeithlonrwydd rhagnodi a dosbarthu meddyginiaethau ar gyfer cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel ei gilydd. Mae cleifion hefyd yn elwa o ymarferoldeb cynyddol Ap GIG Cymru a thrwy ei fabwysiadu yn ehangach, byddant yn cael mynediad mwy di-dor at wasanaethau gofal iechyd.

Bydd PDaHW yn helpu i gryfhau'r ffocws ar atal a llesiant. Bydd pob aelod o'r tîm fferylliaeth yn cefnogi cleifion i gadw'n iach, gan gynnwys cydweithio'n effeithiol â phawb sy'n ymwneud â gofal cleifion i fodloni ymrwymadau 'Cymru Iachach'² ond erbyn hyn mae 'dull system gyfan tuag at iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch'.

MYFYRIO AR GYNNYDD AC AMCANION 2025

AMCAN 2025


CEFNOGI TIMAU FFERYLLIAETH I WNEUD I BOB CYSWLLT Â CHLAF GYFRIF

Mae pob tîm fferylliaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol at wella canlyniadau cleifion. Mae fferyllfeydd cymunedol yn cynnig rhai o'r gwasanaethau gofal iechyd mwyaf hygyrch, gan roi mynediad uniongyrchol i gleifion at fferyllwyr, technegwyr fferyllfa a staff cymorth â hyfforddiant uchel. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig cyngor arbenigol, meddyginiaethau a gofal wedi'u teilwra i anghenion unigol, gan gynnwys ar adegau pan fo gwasanaethau gofal sylfaenol eraill ar gau. Mae newidiadau i fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol wedi arwain at welliannau amlwg o ran mynediad at ofal i bobl yn y cymunedau a wasanaethir gan fferyllfeydd. Mae cleifion wedi gallu cyrchu ystod sylweddol ehangach o wasanaethau clinigol, ar sail gynyddol gyson ledled Cymru. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol (PIPS) wedi ehangu'n gyflym ers 2022 (ffigwr 2) a bydd ar gael gan y rhan fwyaf o fferyllfeydd yng Nghymru o fewn oes y weledigaeth hon.

DATA GWASANAETH FFERYLLIAETH GYMUNEDOL O FIS
EBRILL 2024 I FIS MAWRTH 2025

Mae cleifion yng Nghymru yn cyrchu ystod o wasanaethau clinigol drwy fferyllfeydd cymunedol lleol yn gynyddol gyson.

CYNLLUN ANHWYLDERAU CYFFREDIN (CAS)



PROFI A THRIN DOLUR GWDDF (STTT)



FFIGWR 2: GWASANAETH FFERYLLWYR-RAGNODWYR ANNIBYNNOL (PIPS)



Yn dilyn newidiadau i'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol a ddaeth i rym yn 2024, mae technegwyr fferyllfa bellach yn gallu: rhoi a chyflenwi meddyginiaethau o dan gyfarwyddiadau grŵp cleifion (PGDs). Mae'r ddeddfwriaeth alluogi hon yn cefnogi technegwyr fferyllfa mewn fferyllfeydd cymunedol i ehangu ar eu rolau clinigol, gydag 83 o dechnegwyr fferyllfa bellach wedi'u hachredu i ddarparu gwasanaethau atal cenhedlu, a 8% o'r holl frechiadau fflwi mewn fferyllfeydd cymunedol wedi'u rhoi gan dechnegwyr fferyllfa yn nhymor fflwi 2024/2025 (*Ffynhonnell Ddata: Fferylliaeth Gymunedol Cymru*). Mae newidiadau i gyfarwyddiadau sy'n llywodraethu darparu gwasanaethau clinigol fferylliaeth gymunedol a wnaed yn 2022 yn golygu ar gyfartaledd bod technegwyr fferyllfa bellach yn cwblhau mwy nag un o bob pum Adolygiad Meddyginiaethau wrth Ryddhau.

O fewn timau fferylliaeth ysbyty, mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sydd wedi'u gwreiddio mewn timau amlddisgyblaethol yn cynnig arbenigedd meddyginiaethau, a thrwy dreulio mwy o amser ar weithgarwch clinigol yn cynnig optimeiddio gwell ar feddyginiaethau ar gyfer cleifion.

Mae timau fferylliaeth sydd wedi'u gwreiddio mewn adrannau gofal brys ac mewn argyfwng, yn gweithio fel rhan o'r Tîm Amlddisgyblaethol, yn helpu i gefnogi darpariaeth ddiogel ac effeithlon o ofal i gleifion, ac rydym wedi gweld nifer cynyddol o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa yn cael eu defnyddio mewn adrannau brys yn ystod y tair blynedd diwethaf gyda gwasanaeth fferylliaeth adrannau brys bellach yn cael ei ddarparu'n rheolaidd mewn pum Bwrdd Iechyd.

Rhaid datblygu hyn ymhellach, mae 'Adolygiad o wasanaethau fferylliaeth glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru'⁷ Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r 'Adolygiad annibynnol o wasanaethau fferylliaeth glinigol yn ysbytai'r GIG yng Nghymru' gan RPS,⁸ yn amlinellu 60 cam gweithredu strategol eang, sy'n cynnwys *"Dylai byrddau iechyd sicrhau bod pob lleoliad gofal brys a Gofal Argyfwng yn derbyn gwasanaeth fferylliaeth glinigol a bod fferyllwyr-ragnodwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn cael eu cynnwys mewn timau amlddisgyblaethol ym mhob Adran Achosion Brys ac Uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fel blaenoriaeth"*

ENGHRAIFFT ARFER DA 1

Yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, nodwyd bod materion sy'n ymwneud â meddyginiaeth sy'n cyfrannu at oedi/llif isoptimaidd a chanlyniadau cleifion yn ychwanegu at y pwysau difrifol sydd eisoes yn bodoli ar y system Gofal Brys. Nodwyd yr angen i gael tîm Fferylliaeth Adran Frys cynaliadwy trwy gydol y flwyddyn wrth y drws ffrynt. Cymeradwywyd cyllid ar gyfer tîm fferylliaeth Adran Frys newydd, gyda'r tîm yn gweithredu 7 niwrnod yr wythnos ac yn adolygu 80% o dderbyniadau cyffredinol i'r Adran Frys bob dydd yn glinigol. Mae'r tîm yn mynd ati'n rhagweithiol i leihau costau meddyginiaethau drwy gynnig cyngor ac arweiniad ar amrywioldeb o ran cyflenwi, rhagnodi a phrisio, craffu ar wariant a herio'n rhagweithiol y defnydd o feddyginiaethau y cleifion eu hunain. Mae'r tîm yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn yr Adran Frys i roi cyngor ar ganllawiau, cyfarwyddiadau grwpiau o gleifion a pholisi ynghyd ag adolygu mentrau dal stoc a diogelwch cleifion. Mae ymchwil yn dangos bod 99% o gysoni meddyginiaethau'n digwydd o fewn 24 awr, mae 83% o feddyginiaethau'n cael eu rhagnodi gan fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, mae nifer yr achosion o feddyginiaethau a hepgorwyd wedi gostwng 50%, mae colli dosau o feddyginiaethau critigol wedi'u lleihau 67%, mae statws alergedd wedi'i hepgor wedi gostwng 65% ynghyd â llai o wallau meddyginiaeth wrth ryddhau, gorfod aros am gyfnod byrrach a chyfraddau is o aildderbyniadau.

ENGHRAIFFT ARFER DA 2


Yn ystod peilot wyth wythnos yn cyflwyno cymorth fferylliaeth yn Adran Achosion Brys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gwnaed cyfanswm o 1,896 o ymyriadau — 65% gan fferyllwyr a 35% gan dechnegwyr fferylliaeth rheoli meddyginiaethau. Helpodd y technegwyr fferyllfa i gynnal diogelwch cleifion trwy gyfeirio fferyllwyr at ymyriadau nodedig. Cafodd ymyriadau eu graddio gan ddefnyddio methodoleg Cronfa Ddata Ymyrraeth Cymru Gyfan i gyfrifo osgoi costau, a oedd yn gyfanswm o £404,954. Mae tîm fferylliaeth Adran Achosion Brys wedi mwy na threblu cyfraddau cysoni ar gyfer cyfnod y prosiect, ar gyfartaledd 64 yr wythnos. Ymgwymerwyd â'r rhan fwyaf gan dechnegwyr fferyllfa Adran Achosion Brys, a

ryddhaodd y fferyllwyr i ganolbwyntio ar gleifion â chraffter uwch ac yn ateb cwestiynau mwy cymhleth. Mae'r cynllun peilot hwn, yn debyg i eraill a gynhaliwyd ledled Cymru, wedi helpu i ddangos gwerth gwreiddio timau fferylliaeth yn rhan o'r Tîm Amlddisgyblaethol o fewn adrannau brys, gyda hyn yn dod yn fwy cyffredin.

y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa wedi cynyddu'n sylweddol ers i PDaHW gael ei gyhoeddi gyntaf (ffigur 3). Yn y cyfnod o dair blynedd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2025, cynyddodd nifer y fferyllwyr cyfwerth ag amser llawn a gyflogir mewn practisau meddygon teulu gan 32%, ac ar gyfer technegwyr fferyllfa, roedd y cynnydd yn 56% (Ffynhonnell Ddata: Ystadegau Cymru).

Mae cleifion hefyd wedi elwa ar ehangu gweithwyr fferylliaeth proffesiynol a gyflogir yn uniongyrchol gan bractisau Meddyg Teulu ac yn GIGI. Mae nifer

FFIGWR 3: FFERYLLWYR A THECHNEGWYR FFERYLLFA A GYFLOGIR MEWN PRACTIS MEDDYGON TEULU YNG NGHYMRU RHWNG MIS MAWRTH 2020 A MIS MAWRTH 2025 (CYFRIF PENNAU)



(Ffynhonnell ddata: Ystadegau Cymru, cyrchwyd drwy <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Medical-Services/General-practice-workforce>)

Yn 2019, disgrifiodd PDaHW ein huchelgais i sicrhau bod pob fferylllydd mewn rolau sy'n wynebu cleifion mewn practisau meddygon teulu yn gymwys fel rhagnodwyr erbyn 2022. Mae mwy na 200 o fferyllwyr meddyg teulu bellach yn rhagnodwyr ac yn defnyddio eu sgiliau rhagnodi yn rheolaidd yn eu rolau. Mae hyn wedi mwy na dyblu ers 2019 gyda 215 o fferyllwyr-ragnodwyr yn rhoi mwy na 1.3m o bresgripsiynau gan bractisau meddygon teulu rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Ym mis Mawrth 2025, mewn fferyllfeydd cymunedol roedd 287 o ragnodwyr annibynnol gweithredol; 68 oedd y nifer ym mis Ebrill 2022 a dim ond un pan gyhoeddwyd PDaHW yn gyntaf (Ffynhonnell Ddata: Byrddau Iechyd)

AMCAN 2025

**CYFLAWNI GWSANAETH SY'N
CANOLBWyNTIO AR ANGHENION YR
UNIGOLYN, GAN FYND I'R AFAEL AG
ANGHYDRADDOLDEB IECHYD GAN
SICRHAU GWASANAETH GOFAL IECHYD
CYNALIADWY AR GYFER DINASYDDION
HEDDIW YNGHYD Â CHENEDLAETHAU'R
DYFODOL.**

Mae sicrhau bod pobl yn cymryd eu meddyginiaethau'n briodol yn optimeiddio manteision iechyd trwy leihau gor-ragnodi a gor-archebu meddyginiaethau ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar leihau gwastraff meddyginiaethau. Mae cynlluniau ailgylchu fferylliaeth a chael gwared ar feddyginiaethau, er enghraifft cynlluniau ailgylchu anadlwyr yng Nghymru, yn helpu i leihau effaith amgylcheddol meddyginiaethau a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae timau fferylliaeth cymunedol bellach yn cyrchu 'Fframwaith a Chynllun Dyfarnu Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru'¹¹ sydd yn eu cefnogi i wella eu cynaliadwyedd a'u heffaith amgylcheddol. Mae 'Canllawiau a phhecyn cymorth RPS Fferylliaeth Wyrddach'¹² yn darparu pecyn cymorth hunan-achredu sy'n berthnasol ar draws pob lleoliad.

Rydym wedi gweld y camau breision y mae rhai fferyllfeydd wedi'u cymryd wrth wneud addasiadau ffisegol i safleoedd a'r ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys gosod goleuadau ynni isel, defnyddio papur wedi'i ailgylchu, bagiau bioddiraddadwy, llai o ddefnydd o blastigau untro, a gosod paneli solar ynghyd â'r newid i gerbydau trydan.

Byddwn yn adnewyddu ein ffocws ar gefnogi llawer mwy o dimau fferylliaeth i leihau eu hól troed carbon erbyn 2028.

ENGHRAIFFT ARFER DA 3

Mae'r fferyllfydd cymunedol Andy Evans, o JDS Evans Pharmacy, sydd wedi'i leoli yng Nghasnewydd, De Cymru, wedi cyflawni allyriadau carbon sero-net ac wedi derbyn y wobr aur gan Fframwaith a Chynllun Dyfarnu Gofal Sylfaenol

Gwyrddach Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae JDS Evans wedi gwneud newidiadau sylweddol i leihau eu hallyriadau carbon, gan gynnwys gosod paneli solar, gan ddefnyddio bylbiau golau LED, inswleiddio'r fferyllfa gydag ynysydd wedi'i ailgylchu a disodli'r fan betrol a ddefnyddir i ddosbarthu presgripsiynau i gwsmeriaid gyda cherbyd trydan.

Yn ogystal, cyfrannodd y JDS Evans yn ariannol at elusen amgylcheddol i blannu coed i wrthbwysu ôl troed carbon gweddilliol y fferyllfa a chyflawni statws sero-net.

Trwy brosiect cynaliadwyedd gofal iechyd a gwaith parhaus, mae JDS Evans yn mynd ati i gynghori cleifion ar fanteision clinigol ac amgylcheddol newid o anadlwyr dosau mesurydd (MDI) i anadlwyr powdr sych (DPI).

<https://www.youtube.com/watch?v=zbiHBk1VJkE>

AMCAN 2025

**CYFOETHOGI PROFIAD Y CLAF O FEWN
MEYSYDD BLAENORIAETH CLINIGOL
CENEDLAETHOL GAN SICRHAU BOD
GWASANAETHAU FFERYLLIAETH YN
CANOLBWyNTIO AR WELLA CANLYNIADDAU**

Ers 2022, mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Marie Curie wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ac, trwy grŵp llywio amlbroffesiynol, wedi datblygu gwella ansawdd, Safonau Daffodil ar gyfer timau fferylliaeth cymunedol. Mae'r bartneriaeth barhaus yn cynnig arweinyddiaeth ac eiriolaeth ar gyfer gwella mynediad at feddyginiaethau a gofal diwedd oes. Mae Safonau Daffodil¹³ yn cyd-fynd â'r rhai a weithredir gan Goleg Ymarfer Cyffredinol Brenhinol ac yn hwyluso cydweithio i gryfhau cefnogaeth i gleifion mewn lleoliadau cymunedol. Mae'r ymrwymiad o bob sector ymarfer fferyllol wedi cefnogi'r dull lliniarol gorau posibl a gofal diwedd oes er budd cleifion a'u gofalgwyr.

11. Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru, Ar gael o: <https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau/gofal-sylfaenol-gwyrddach/>
12. Canllawiau a Phhecyn Cymorth RPS Fferylliaeth Wyrddach, Ar gael o: <https://www.rpharms.com/greenerpharmacy>
13. Safonau Daffodil (2022), Ar gael o: <https://www.rpharms.com/recognition/setting-professional-standards/daffodil-standards>

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi timau fferylliaeth cymunedol i ymrwymo i'r safonau ac i gefnogi fferyllfeydd i'w gweithredu o fewn eu practis. Hyd yn hyn, mae 66 o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru wedi cytuno i'r safonau.

I gefnogi darparu gofal diwedd oes da a sicrhau arbenigedd fferyllol arbenigol o fewn gwasanaethau gofal lliniarol, mae arweinwyr fferyllol gofal lliniarol bellach yn eu swyddi o fewn chwe bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd (*Ffynhonnell ddata: Byrddau Iechyd, Mawrth 2025*). Fodd bynnag, er mwyn cefnogi tegwch mynediad ledled Cymru, rhaid cael darpariaeth fferyllol gofal lliniarol arbenigol gyson ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd, ac rydym yn parhau i bwysio i fabwysiadu'r rôl ym mhob bwrdd iechyd.

Sefydlwyd rhwydwaith o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl o fewn timau fferylliaeth, gyda hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl achrededig yn cael ei gynnal gan aelodau'r tîm fferylliaeth ym mhob un sector. Adroddodd cymaint â 90% o fferyllfeydd cymunedol fod eu holl staff wedi cwblhau'r pecyn e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn 2023/24, gyda 91% yn adrodd bod o leiaf un aelod o staff wedi cwblhau cymorth cyntaf ar gyfer hyfforddiant iechyd meddwl.

Mae sgiliau ac arbenigedd clinigol timau fferylliaeth ar draws lleoliadau yn helpu cleifion i gyrchu mynediad at wasanaethau profi Firws a Gludir yn y Gwaed (BBV) mewn modd amserol a chyfleus. Yn benodol, mae'r rhai sydd mewn perygl mawr o gael hepatitis C yn y gymuned, yn elwa o wasanaethau profi cyflym mewn rhai ardaloedd sydd ar gael drwy fferylliaeth gymunedol, ochr yn ochr â chynghor a chymorth cyfrinachol traddodiadol gyda mesurau atal niwed gan gynnwys rhaglenni cyfnewid nodwyddau a chwistrellau. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i gyrraedd y cleifion hynny nad ydynt yn draddodiadol yn ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd.

ENGHRAIFFT ARFER DA 4

Mae Fferyllfa Wellington Road yn y Rhyl, Gogledd Cymru wedi bod yn cynnig gwasanaeth profi Firws a Gludir yn y Gwaed (BBV) i gleifion yn eu cymuned leol. Mae'r gwasanaeth ar gael i unrhyw un sydd â risg uchel o ddal Hepatitis C. Mae aelodau

hyfforddedig y tîm fferylliaeth, gan gynnwys fferylllydd a thechnegydd fferyllfa, yn perfformio swab ceg ar gleifion i ganfod gwrthgyrff hepatitis C. Mae'r tîm wedi hyrwyddo'r gwasanaeth yn lleol ac yn cael sgysiau rheolaidd gyda chleifion sy'n cyrchu cyflenwad nodwyddau a chwistrellau neu wasanaethau rhoi dan oruchwyliaeth. Mae'r tîm wedi nodi nifer o achosion positif trwy ganfod gwrthgyrff, yn ogystal ag aelodau o'r gymuned yn gofyn am brawf pan fyddant yn amau cysylltiad posibl. Yn ogystal â darparu mynediad hawdd at brofion ar gyfer eu cymuned, mae'r gwasanaeth hefyd wedi gwella perthnasoedd â'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau lleol, gyda'u nyrs yn cefnogi clinigau profi ad hoc yn y fferyllfa gymunedol.

Mae Sarah Hulse, Fferylllydd Ymgynghorol Feirws a Gludir yn y Gwaed Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), yn gweithio ar draws Gogledd Cymru yn gofalu am bobl sy'n byw gyda HIV a hepatitis firaol. Sarah sy'n arwain y llwybr profi a thrin cyflym ar gyfer hepatitis C yn y gymuned sydd wedi helpu i ddarparu triniaeth ar gyfer cymunedau ymylol sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal trwy lwybrau triniaeth traddodiadol. Un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer Sefydliad Iechyd y Byd ac amcan Llywodraeth Cymru, i ddileu hepatitis B ac C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd erbyn 2030, yw cynyddu profion i allu adnabod pobl y mae angen eu trin a'u cynnwys mewn gofal. Mae profion Hepatitis C gan fferyllfeydd cymunedol yn helpu i ehangu mynediad at brofion ac o bosibl yn cyrraedd cleifion nad ydynt yn ymgysylltu ag unrhyw weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

AMCAN 2025

**CRYFHAU ARFER YMCHWIL A GWELLA
ANSAWDD YR HOLL WEITHWYR
FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL, GAN
SICRHAU FFOCWS AR GANLYNIADAU
CLEIFION**

Mae nifer cynyddol o weithwyr fferyllol proffesiynol yng Nghymru wrthi'n cynnal, yn ymgysylltu ac yn cefnogi ymchwil, ond mae angen gwaith o hyd i greu diwylliant o wella ansawdd, gwerthuso gwasanaethau ac ymchwil o fewn y gweithlu

fferylliaeth. Ar gyfer fferyllwyr sy'n gweithio tuag at gymwysterau proffesiynol, parthau anghlinigol y pedair colofn ymarfer yn aml yw'r rhai sy'n profi'n fwyaf heriol i ymgeiswyr eu cyrraedd. Dengys data a ryddhawyd o adroddiad credydu diweddaraf RPS (2024)¹⁴, ar gyfer data cronus ers sefydlu'r llwyfan credydu, ar gyfer perfformiad ymgeiswyr uwch craidd ac ymgynghorol, mae gan y parth ymchwil y gyfradd basio isaf ar gyfer ymgeiswyr.

Mae Ymchwil Fferylliaeth Cymru (PRW) gyda chefnogaeth Sefydliadau Addysg Uwch a'r proffesiwn wedi cynnig arweinyddiaeth sydd wedi arwain at gynyddu goruchwyliaeth ymarferwyr ar brosiectau israddedig fferylliaeth. Mae tua 35% o brosiectau israddedig a gyflawnwyd yn Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol, Caerdydd a 25% ym Mhrifysgol Abertawe wedi elwa o ddull goruchwyllo ar y cyd rhwng ymarferwyr fferylliaeth ac academyddion. Mae manteision cyfunol i'r dull hwn, gydag israddedigion yn elwa ar arbenigedd go iawn gweithwyr fferylliaeth proffesiynol yn eu hymchwil, a gweithwyr fferylliaeth proffesiynol yn cael eu galluogi i gymryd rhan ac arwain ar elfennau o ymchwil ymarfer eu hunain.

ENGHRAIFFT ARFER DA 5

Mae Ymchwil Fferylliaeth Cymru (PRW) wedi arwain ar fenter i gryfhau'r cydweithio ar draws Cymru rhwng y byd academiaidd a'r GIG. Gwahoddwyd ymarferwyr i gyflwyno syniad prosiect, yna cânt eu cefnogi gan academydd, gan weithio gyda'i gilydd i adeiladu cynnig ymchwil ac yna goruchwyllo prosiect israddedig ar y cyd. Mae pob aelod o'r tîm yn elwa o'r cydweithrediad hwn, sy'n cael ei redeg ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Caerdydd ac Abertawe, lle mae nifer yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn y bartneriaeth wedi cynyddu i 60 y flwyddyn.

O ganlyniad i gamau gweithredu sy'n dod i'r amlwg o'r gweithgor Gofal Fferyllol Di-dor, mae dau ymarferydd, Emyr Jones a Lois Gwyn, wedi arwain ar brosiectau israddedig cydweithredol a adnabwyd yn 2025: un yn archwilio rôl fferylliaeth gymunedol wrth ragnodi cymdeithasol drwy'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol, Caerdydd a chwmpasu rolau cyfredol fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol o fewn gofal sylfaenol gyda Phrifysgol Abertawe.

CAMAU NESAF AT 2028

Rhaid i'r tair blynedd nesaf adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed hyd yma i sicrhau mynediad mwy cyson a theg at wasanaethau fferyllol ym mhob lleoliad a phob rhan o Gymru. Dylai pob claf, beth bynnag fo'i leoliad, dderbyn yr un safon uchel o ofal fferyllol. Mae cyflawni hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni blaenoriaethau GIG Cymru a sicrhau bod cleifion yn cyrchu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cywir yn y lleoliad cywir.

Wrth i'r proffesiwn weithio i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, mae'n hanfodol harneisio arbenigedd y gweithlu fferylliaeth cyfan. Mae buddsoddiad parhaus a chefnogaeth ar gyfer y rhwydwaith fferyllol yn allweddol i ddarparu gwasanaethau teg a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar draws cymunedau.

FFOCWS FFERYLLIAETH AR WELLA LLESANT AC ATAL SALWCH

Mae 'Cymru Iachach'² yn amlinellu'r angen am newid a phwyslais tuag at iechyd, llesiant ac atal fel canolbwynt ar gyfer darparu gofal i gleifion erbyn 2028.

"Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar atal salwch, ar gefnogi pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ac ar alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd, gyda chymorth technolegau newydd a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n cael eu darparu yn nes at y cartref".

Rhaid cyflawni'r uchelgais hon drwy ddull cydlynol ar draws yr holl system iechyd a gofal cymdeithasol, gyda thimau fferylliaeth mewn sefyllfa dda i gefnogi'r newid ffocws hwn tuag at lesiant ac atal. Roedd y newid hwn yn un o egwyddorion sylfaenol PDaHW.

"Byddwn yn cynyddu ein ffocws ar iechyd, llesiant ac atal gyda'r holl fferyllfeydd cymunedol yn dod yn hybiau iechyd a llesiant, gan weithio ar y cyd gyda'r Tîm Amlddisgyblaethol o fewn y clwstwr gofal sylfaenol."

14. Adroddiad credydu blynyddol RPS (2024). Ar gael o: <https://www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Credentialing/RPS%20Annual%20credentialing%20report%202024%20-%2020300425.pdf>

Er mwyn bodloni blaenoriaethau'r GIG yng Nghymru, rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar wella iechyd pobl, canfod salwch yn gynnar ac atal datblygiad clefydau. Drwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, i ganfod ac ymyrraeth gynnar, ni ellir tanbrizio pwysigrwydd datblygu gwybodaeth a sgiliau ymhlith pob aelod o'r tîm fferylliaeth ac integreiddio gwasanaethau fferyllol mewn llwybrau gofal ehangach. Mewn ysbytai, bydd fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa yn defnyddio eu rhyngweithio â chleifion mewnol a'r rhai sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio i ddylanwadu arnynt i wneud newid ymddygiad iechyd cadarnhaol gan ddilyn yr egwyddor Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif.

ENGHRAIFFT ARFER DA 6

Yn ystod ei chymrodoriaeth ddiweddar â'r Ganolfan Gofal Amlawdriniaethol (CPOC), cododd Claire Frank ymwybyddiaeth o sut y gall fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa gynorthwyo cleifion i baratoi'n weithredol ar gyfer llawdriniaeth waeth ym mha sector y maent yn ymarfer. Gall atal ysmegu, lleihau cymeriant alcohol, cynyddu gweithgarwch corfforol, gan ganolbwyntio ar faeth a llesiant, optimeiddio cydafiachedd a pharatoi'r amgylchedd cartref arwain at leihau cymhlethdodau gan 50% a hyd yr arhosiad gan 1-2 ddiwrnod, sydd o fudd i gleifion a'r GIG ehangach. Yn bwysig, ystyrir llawdriniaeth yn gyfle i ddysgu fel bod newid ffordd o fyw cyn llawdriniaeth yn aml yn cael ei gynnal yn y tymor hir, gan helpu i gyflawni Cymru iachach.

Mae tîm fferylliaeth Ysbyty Maelor Wrecsam yn defnyddio'r ymgynghoriad asesu cyn llawdriniaeth fel cyfle i gynghori cleifion ar y defnydd gorau posibl o'u meddyginiaeth a hyrwyddo rhoi'r gorau i ysmegu. Mae Claire wedi annog yr adran fferylliaeth ehangach i ddefnyddio eu hymgyngoriadau i hyrwyddo newid ffordd o fyw (e.e. annog symud gyda chynghor penodol i gyflwr gan Moving Medicine) ac optimeiddio cydafiachedd a allai waethgu canlyniadau llawfeddygol (e.e., anemia, diabetes, bregusrwydd). Ar hyn o bryd mae hi'n archwilio ffyrdd y gall timau gofal sylfaenol ac eilaidd gyfeirio cleifion at daflen 'beth i ofyn, ei ystyried a'i wneud os ydych chi'n cael llawdriniaeth'

CPOC ar ddechrau eu llwybr llawfeddygol i godi ymwybyddiaeth o fanteision newid ffordd o fyw, gan alinio â pholisi 'Annog, Atal ac Amser Paratoi ar gyfer Gofal a Gynllunio' Llywodraeth Cymru a sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar ganlyniadau llawfeddygol.

AMCAN 2028

BYDD FFERYLLFEYDD CYMUNEDOL YN DOD YN HYBIAU LLESIANT CYMUNEDOL YN CYNNIG YSTOD O WASANAETHAU DIOGELU A GWELLA IECHYD, LLE MAE POB AELOD O'R TÎM FFERYLLIAETH WEDI'U GRYMUSO I HYRWYDDO IECHYD A LLESIANT TRWY'U HOLL RYNGWEITHIADAU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD.

- Byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar yr hyn y mae atal yn ei olygu yng nghyd-destun fferylliaeth gymunedol.
- Byddwn yn cynyddu cyfran y fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau diogelu iechyd a gwella iechyd blaenoriaeth a chynyddu gweithgaredd gwella a diogelu iechyd mewn fferyllfeydd.
- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr, technegwyr fferyllfa a staff fferyllol sy'n gallu cefnogi pobl i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd a'u llesiant.

CYFRANIAD FFERYLLFEYDD AC ARFER FFERYLLIAETH AR WELLA CYNALIADWYDD AMGYLCHEDDOL

Datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019, gyda'r nod o sbarduno mwy o ffocws a mwy o weithredu i fodloni heriau a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd. Mae gan Gymru darged sy'n rhwymo mewn cyfraith i gyflawni allyriadau sero-net erbyn 2050, fel yr amlinellir yn 'Neddf yr Amgylchedd (Cymru)',¹⁵ ac mae 'Polisi Sero Net Llywodraeth Cymru'¹⁶ yn

15. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2026). Ar gael o: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents>

16. Cymru Sero Net (2021). Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2>

disgrifio'r uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn sero net erbyn 2030. Gan fod y gwasanaeth iechyd yn cyfrannu tua 4-5% o gyfanswm allyriadau carbon y DU a meddyginiaethau yn unig i gyfrif am 25% o holl allyriadau carbon y GIG, mae'r rôl i bawb ar draws gofal iechyd yn glir.

Mae sawl cynllun ar waith i lywio'r gweithredu sy'n ofynnol i leihau allyriadau carbon yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'¹⁰ yn disgrifio saith nod llesiant y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt, un ohonynt yw 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' gyda ffocws ar effaith amgylcheddol gweithredoedd rhywun. Disgrifia Cymru Iachach² yr angen i wreiddio gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd wrth wneud penderfyniadau a chynlluniau ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae 'cynllun cyflawni strategol datgarboneiddio GIG Cymru'¹⁷ yn amlinellu'r mentrau a'r camau sydd eu hangen i leihau allyriadau o fewn y GIG. Er y gall 'Fframwaith a Chynllun Dyfarnu Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru'¹¹ helpu contractwyr gofal sylfaenol annibynnol i wella eu cynaliadwyedd a'u heffaith amgylcheddol.

Rhaid i ni sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn a sut yr ydym yn eu darparu yn gynaliadwy nawr ac ar gyfer y dyfodol, i gyflawni iechyd a gofal sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol i gyflawni uchelgais Cymru Sero Net, diogelu iechyd a hyrwyddo tegwch.

AMCAN 2028

BYDD GWEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL YN ARWAIN YR YMDRECH I OSTWNG EFFAITH AMGYLCHEDDOL MEDDYGINAETHAU A GWASANAETHAU FFERYLLOL, GYDA THIMAU FFERYLLIAETH YN YMROI I YMGYSYLLTU Â GOSTWNG ÔL TROED CARBON A GWELLA GWERTH A CHYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL Y GIG.

- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllfeydd cymunedol sy'n cymryd rhan yng nghynllun Gofal Sylfaenol Gwyrddach Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Byddwn yn cefnogi fferyllfeydd cymunedol i weithredu mesurau sy'n lleihau eu hól troed carbon.
- Byddwn yn cefnogi fferyllwyr a thimau fferylliaeth sy'n gweithio mewn ysbytai i ymgysylltu â Chanllawiau a Phhecyn Cymorth Fferylliaeth Gwyrddach RPS.
- Byddwn yn gweithio gyda rhagnodwyr eraill o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd i leihau effaith amgylcheddol meddyginiaethau a nwyon meddygol.

GWEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL YN CYNNIG ARWEINYDDIAETH YM MEYSYDD BLAENORIAETH CENEDLAETHOL

"Mae creu'r Rhwydweithiau Clinigol Strategol Cenedlaethol newydd yn cynrychioli cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i yrru newid, gwella canlyniadau, lleihau amrywiad, a gwella iechyd a bywydau ein poblogaeth yng Nghymru. Wedi'i leoli o fewn cyfarwyddiaeth Rhwydweithiau a Chynllunio Gweithrediaeth GIG Cymru, mae ffocws y rhwydweithiau ar wella ansawdd, cynaliadwyedd a chanlyniadau gwasanaethau GIG Cymru o fewn eu maes ffocws perthnasol" (Mark Dickinson Cyfarwyddwr Rhwydweithiau, Gweithrediaeth GIG Cymru (Perfformiad a Gwella GIG Cymru erbyn hyn)).¹⁸

Sefydlwyd y Rhwydweithiau Clinigol Strategol Cenedlaethol i sbarduno newid, gwella canlyniadau, lleihau amrywiad, a gwella iechyd a bywydau pobl yng Nghymru.

Maen nhw'n tynnu'n uniongyrchol ar arbenigedd clinigwyr sy'n gweithio ym maes darparu gwasanaethau rheng flaen mewn gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd a thrydyddol. Mae'n hanfodol bod y rhwydwaith yn manteisio ar ehanger yr arweinyddiaeth glinigol ar draws pob disgyblaeth gofal iechyd, gydag arbenigedd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol wedi'i wreiddio yn y rhwydweithiau, sy'n hanfodol i yrru'r newid sydd ei angen er budd pobl Cymru.

17. Cynllun cyflenwi strategol ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru (2021). Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/cynllun-cyflenwi-strategol-ar-gyfer-datgarboneiddio-gig-cymru>

18. Cyflwyno'r Rhwydweithiau Strategol Cenedlaethol Newydd. Ar gael o: <https://performanceandimprovement.nhs.wales/functions/networks-and-planning/nandp-docs/introducing-the-national-strategic-clinical-networks-print-version/>

AMCAN 2028

BYDDWN YN CYNHYDDU NIFER Y FFERYLLWYR A THECHNEGWYR FFERYLLFA SY'N DARPARU ARWEINYDDIAETH AR LEFEL GENEDLAETHOL, GAN WELLA DEFNYDD MEDDYGINIAETHAU A CHANLYNIADAU CLEIFION FEL AELODAU GWEITHREDOL O RWDWEITHIAU CLINIGOL STRATEGOL GIG CYMRU GWEITHREDOL WRTH BARHAU I ADEILADU GALLUOGRWYDD ARWEINYDDIAETH YN Y GWEITHLU.

- Byddwn yn sicrhau bod cyngor fferyllol arbenigol ar gael i rwydweithiau clinigol strategol y GIG a bod gweithiwr fferylliaeth proffesiynol a enwir yn cyfrannu at eu gwaith ym mhob rhwydwaith yng Nghymru.
- Byddwn yn sicrhau bod gan ddarparu arweinwyr fferyllol fynediad at ystod o gyfleoedd fferylliaeth, amlddisgyblaethol ac ar draws y sector cyhoeddus ar gyfer datblygu arweinyddiaeth.

YMCHWIL GAN WEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL

Mae ymchwil, archwilio, gwella ansawdd a gwerthuso gwasanaethau yn darparu'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen i wella canlyniadau gofal ac iechyd yn barhaus. Mae cynhyrchu tystiolaeth a gweithredu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cyfrannu at driniaeth ddiogel o ansawdd uchel ac yn sicrhau bod gwasanaethau ac ymyriadau effeithiol ar gael i gleifion a'r cyhoedd.

Er mwyn meithrin diwylliant ymchwil cynaliadwy, mae angen yr amgylchedd ar weithwyr fferylliaeth proffesiynol sy'n galluogi mynediad at hyfforddiant ymchwil, yn hyrwyddo partneriaeth rhwng ymarferwyr a'r byd academiaidd, ac yn rhoi'r amser ar gyfer ymchwil. Bydd mabwysiadu llwybrau gyrfa ar gyfer gweithwyr fferylliaeth proffesiynol sy'n galluogi ymchwil yn cefnogi recriwtio a chadw fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa yn ogystal â chynyddu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ofal fferyllol o ansawdd uchel yng Nghymru.

AMCAN 2028

BYDDWN YN CYNHYDDU CYFRANIAD FFERYLLWYR A THECHNEGWYR FFERYLLFA YNG NGHYMRU I DDANGOS BUDD GOFAL FFERYLLOL A GWASASNAETHAU FFERYLLIAETH TRWY GYMRD RHAN A LLEDAENU YMCHWIL, GWERTHUSO GWASANAETH A GWEITHGAREDDAU GWELLA ANSAWDD, WRTH BARHAU I ADEILADU CAPASITI A GALLUOGRWYDD YMCHWIL YN Y GWEITHLU.

- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i dimau fferylliaeth cymunedol gefnogi ymchwil a gwerthuso gwasanaethau sy'n dangos effeithiolrwydd yr ystod gynyddol o wasanaethau clinigol sydd ar gael o fferyllfeydd.
- Byddwn yn datblygu ystorf dystiolaeth i goladu a lleadaenu canfyddiadau ymchwil, gwerthuso gwasanaethau a gweithgareddau gwella ansawdd a wneir gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa yng Nghymru.
- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa gyda sgiliau a galluogrwydd ymchwil.

4 Datblygu'r Gweithlu Fferylliaeth

Yn y bôn, mae iechyd a gofal yn fusnes pobl, sy'n cael ei ddarparu gan bobl, ar gyfer pobl. Y bobl sy'n gweithio ar draws iechyd a gofal yw ei ased mwyaf ac maent yn allweddol i ddarparu gofal o ansawdd uchel.¹⁹

Mae pwysau ar y gweithlu o fewn gofal iechyd yn gyfarwydd iawn, ac mae timau fferylliaeth, ar y cyd ag eraill, yn parhau i brofi pwysau sy'n cael effaith andwyol arnynt a'u gallu i ofalu am gleifion. Mae heriau recriwtio a chadw, ochr yn ochr â'r galw cynyddol am wasanaethau, yn gwaethgu pwysau sy'n effeithio ar lesiant y gweithlu. Canfu arolwg llesiant y gweithlu 2024 a gynhaliwyd gan RPS a Chymorth Fferyllwyr fod 87% o'r ymatebwyr yn disgrifio eu hunain fel rhai sydd mewn perygl uchel o gael eu llethu.²⁰

Mae cynllunio gweithlu hirdymor effeithiol gyda chynllun gweithlu integredig ac wedi'i ariannu yn hanfodol i gyflawni datblygiad y gweithlu, gan ddarparu glasbrint ar gyfer sbarduno newid a gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn datblygu, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gweithlu fferylliaeth.

CYNLLUN GWEITHLU FFERYLLIAETH STRATEGOL

Ym mis Mehefin 2023 lansiodd AaGIC ei 'Gynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol'.⁹ Bydd gweithredu a chyflawni'r cynllun yn helpu i greu gweithlu cynaliadwy ar hyn o bryd ac i'r dyfodol, gweithlu sy'n ystwyth ac wedi'i alluogi'n ddigidol, ac sy'n dangos yr ymddygiadau cywir, y cymysgedd sgiliau a'r gallu i arwain sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal rhagorol i gleifion o fewn cyd-destun ehangach y GIG. Mae angen dull cydweithredol ar draws y proffesiwn cyfan i sicrhau llwyddiant y cynllun gyda phawb wedi ymrwymo i'w weithredu. Mae'r gwaith wedi dechrau ar weithredu ac yn parhau gydag ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Graddedigion fferylliaeth yn 2025 fydd y cyntaf i ddechrau ar raglen hyfforddiant sylfaen newydd AaGIC sy'n cwmpasu hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol wrth gofrestru. Bydd angen cefnogaeth ar y rhagnodwyr annibynnol newydd sy'n cofrestru ar ddiwedd y rhaglen trwy lwybr datblygu gyrfa ôl-gofrestru sy'n galluogi adeiladu cymhwysedd ac ehangu cwmpas ymarfer unigolion.

Mae'r llwybr prentisiaeth fodern (MA) ar gyfer technegwyr fferyllfa yn cynnig llwybr galwedigaethol dwy flynedd at gofrestrriad ac ystod o yrfaoedd o fewn fferylliaeth a'r GIG. Mae llwybr newydd ar gael i gynorthwyyr fferylliaeth ac eraill nad oes ganddynt y cymwysterau TGAU gofynnol sydd eu hangen yn draddodiadol i wneud cais am yr hyfforddiant technegydd fferyllfa cyn-gofrestru prentisiaeth fodern wedi'i ariannu a ddarperir gan AaGIC. Mae llwybr 'Mynediad at' AaGIC yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i gefnogi'r aelodau hynny o'r gweithlu i gael mynediad at hyfforddiant technegydd fferyllfa cyn-gofrestru, ac wrth wneud hynny, yn ehangu mynediad at yrfa broffesiynol gydol oes ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru.

Mae 'fforymau Cynllunio Gweithlu Fferylliaeth' newydd yn goruchwyllo gwaith AaGIC i fudo systemau data a chynhyrchu map gweithlu fferyllol cyfan sy'n rhoi mewnwelediadau newydd i'r gweithlu fferyllol. Wrth i lifoedd data wella, felly hefyd y bydd y gallu i wneud penderfyniadau cynllunio gweithlu mwy gwybodus.

FFERYLLWYR A RHAGNODI

Yn dilyn cyhoeddi 'Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr' (IETP) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC),²¹ bu newidiadau sylweddol i raglenni hyfforddi israddedig gyda llawer mwy o gysylltiad ag ymarfer clinigol cyn graddio.

19. Y gweithlu iechyd a gofal. Cronfa'r Brenin (2022). Ar gael o: <https://www.kingsfund.org.uk/insight-and-analysis/long-reads/health-and-care-workforce>

20. Arolwg o'r Gweithlu a Llesiant, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (2024). Ar gael o: <https://www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Workforce%20Wellbeing/RPS%202024%20Workforce%20Wellbeing%20Survey.pdf>

21. Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr, GPhC. (2021). Ar gael o: <https://assets.pharmacyregulation.org/files/2024-01/Standards%20for%20the%20initial%20education%20and%20training%20of%20pharmacists%20January%202021%20final%20v1.4.pdf>

Cyffredinol (GPhC) 'Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr' (ETP),²¹ bu newidiadau sylweddol i raglenni hyfforddi israddedig gyda llawer mwy o gysylltiad ag ymarfer clinigol cyn graddio. Mae'r safonau newydd yn golygu bod rhaglenni bellach yn gwreiddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r priodoleddau sy'n ofynnol ar gyfer rhagnodi, gan alluogi fferyllwyr sy'n cofrestru o 2026 i ragnodi'n annibynnol o'r pwynt cofrestru.

Mewn niferoedd mawr, mae fferyllwyr ledled Cymru yn cynyddu eu cymhwysedd i ateb y galw am wasanaethau sy'n esblygu, gyda ffocws cryf ar ragnodi annibynnol. Mae manteision fferyllwyr-ragnodwyr yn cael eu gwreiddio ar draws pob lleoliad, yn enwedig o fewn y contract fferylliaeth cymunedol â mwy o ffocws clinigol sydd wedi sbarduno cynnydd nodedig mewn gwasanaethau rhagnodi. Ym mis Mehefin 2025, mae gan dros 47% o fferyllwyr yng Nghymru anodiad rhagnodi, i fyny o 30% ym mis Rhagfyr 2022, sy'n adlewyrchu cynnydd o 17% mewn ychydig o dan dair blynedd, yn ôl data cofrestr GPhC.

Trwy fuddsoddiad Llywodraeth Cymru a chynlluniau cydweithredol rhwng AaGIC ac Ysgolion Fferylliaeth yng Nghymru, mae myfyrwyr yn elwa ar amser sylweddol a dreulir ar leoliad clinigol yn ystod eu gradd.

Mae'r holl hyfforddiant i fferyllwyr sylfaen ledled Cymru yn rhai amlsector ac mae'r rhaglen hyfforddiant ôl-gofrestru AaGIC, trwy weithredu'r cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru RPS, yn cefnogi datblygu cofrestreion newydd yn gynnar yn eu gyrfa ynghyd â chyflawni statws rhagnodwyr annibynnol.

TECHNEGWYR FFERYLLFA

Wedi'i chefnogi a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Fframwaith Prentisiaethau Modern, mae rhaglen hyfforddi Technegydd Fferyllfa Cyn-gofrestru (PRPT) Lefel 4 AaGIC yn cynnwys achrediad ar gyfer gwirio cywirdeb terfynol presgripsiynau ac yn arfogi hyfforddeion â'r sgiliau a'r wybodaeth ar gyfer ymarfer uwch ar draws pob sector.

Mae rôl y technegydd fferyllfa wedi esblygu'n sylweddol ac mae'n parhau i wneud hynny, ac enghraifft o hynny yw technegwyr fferyllfa bellach yn cael eu galluogi i gyflenwi a rhoi meddyginiaethau o dan PGD.

Bydd goblygiadau newidiadau arfaethedig mewn deddfwriaeth i oruchwylio gweithgareddau a gynhelir mewn fferyllfeydd ar draws lleoliadau cymunedol ac ysbytai, gan alluogi i fferyllwyr ddirprwyo mwy o weithgareddau i dechnegydd fferyllfa, gan hwyluso defnydd mwy effeithiol ar sgiliau pob aelod o'r tîm fferylliaeth.

Wrth i rôl y technegydd fferyllfa esblygu, mae'r angen am lwybr datblygu ôl-gofrestru ar gyfer technegwyr fferyllfa, gyda chefnogaeth cwricwla ac asesiadau sicrwydd carreg filltir yn amlwg.

GWEITHLU FFERYLLIAETH NAD YDYNT YN YMGYNGHORYDD

Rhaid gwreiddio potensial fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa i ddarparu mwy o ofal clinigol sy'n wynebu cleifion trwy uwchsgilio holl aelodau'r tîm fferylliaeth. Rhaid i staff cymorth fferylliaeth priodol gymwys gael eu grymuso i ymgymryd â lefelau uwch o gyfrifoldeb gyda'r hyfforddiant a'r awdurdod dirprwyedig priodol.

Yn aml, staff cymorth fferylliaeth yw'r cyswllt cyntaf y mae'r claf yn ei gael â'r gwasanaethau fferyllol y mae'n dymuno eu cyrchu ac mae ganddynt y potensial i chwarae rhan lawer mwy yn yr agenda atal a llesiant i gleifion. Bydd datblygu cyfleoedd i'r aelodau tîm hyn ddatblygu eu gyrfaedd yn hanfodol, a rhaid eu cefnogi gyda chyfleoedd sy'n datblygu eu sgiliau, yn darparu boddhad swydd ac yn caniatáu iddynt ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb, a chael eu gwobrwyo am wneud hynny. Mae staff cymorth fferylliaeth yn rhan hanfodol o'r gweithlu, yn enwedig mewn lleoliadau cymunedol ac ysbytai, ac yn aml mae'r rolau hyn yn rhoi cyfle i bobl symud ymlaen i gofrestru fel technegydd fferyllfa yn y dyfodol.

CYNHWYSIANT, AMRYWIAETH A LLESIANT

Mae canlyniadau arolwg llesiant gweithlu RPS 2024²⁰ yn dangos yr angen i ddiwylliant yn y gweithle fod yn ffafriol i iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol. Rhaid i bob amgylchedd gwaith fabwysiadu diwylliant o berthyn, fel bod pob aelod o'r tîm yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, ac yn tynnu cryfder o amrywiaeth y gweithlu. Bydd gan unigolion nad ydynt yn teimlo eu bod yn perthyn iechyd meddwl a llesiant gwaeth ac maent yn fwy tebygol o adael y proffesiwn.

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i gael gwared ar rwystrau a chreu amgylcheddau gwaith teg, gan sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu hystyried.

Mae deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru yn ogystal â mentrau fel 'Mwy na geiriau'²² yn sicrhau bod anghenion iaith siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu; mae hyn yn bwysig i staff yn ogystal â chleifion a'r cyhoedd.

Rhaid i amgylcheddau gwaith fferylliaeth feithrin diwylliant o berthyn sy'n gynhwysol, yn barchus, yn ddiogel, yn dathlu amrywiaeth ac yn cefnogi llesiant. Mae gweithlu sy'n ddiwylliannol gymwys yn hanfodol i gefnogi cynwysoldeb y gweithlu, ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac anghyfartaledd iechyd y dangosir eu bod yn effeithio'n anghymesur ar gleifion o grwpiau ethnig wedi'u tangynrychioli.

MYFYRIO

AMCAN 2025

CREU DIWYLLIANT WAITH DDENIADOL LLE MAE ARWEINYDDIAETH WEDI'I GRYMUSO I BOB LEFEL, MAE LLESANT YN CAEL EI FLAENORIAETHU, A DAW CEFNOGI EI GILYDD WRTH DDYSGU A DATBLYGU Y NORM

Mae'r gweithlu fferyllol ar draws pob sector wedi parhau i ddatblygu a chynyddu ei sgiliau. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i'r proffesiwn cyfan nid yn unig ddatblygu eu hunain ond cefnogi datblygiad eraill. Gall hyn weithiau deimlo'n heriol yn erbyn cefndir o bwysau gweithlu, ond rydym wedi gweld enghreifftiau gwych o'r proffesiwn lle mae hyn yn digwydd.

Mae fferyllwyr yn ymgymryd fwyfwy â rôl yr Ymarferwyr Rhagnodi Dynodedig (DPP) i gefnogi datblygiad rhagnodwyr dan hyfforddiant. Rôl a gyflawnwyd yn draddodiadol gan feddygon, bu'r ehangu hwn o ran mynediad i DPP yn hollbwysig i gynyddu'r capasiti o fewn y system i gefnogi rhagnodwyr annibynnol dan hyfforddiant yn y dyfodol, gan gynnwys y rhai sy'n graddio o 2025 ac

yn ymgymryd â'r cymhwyster rhagnodi fel rhan o hyfforddiant sylfaen.

Mae technegwyr fferylliaeth yn cefnogi datblygu'r gweithlu cyn cofrestru, gyda chydweithwyr profiadol yn datblygu eu harferion, i alluogi cyflwyno brechiadau, cyflenwi meddyginiaethau o dan PGD, a pharatoi meddyginiaethau mewn gwasanaethau aseptic.

Dim ond cipolwg sydd yma ar y mathau o ddysgu a datblygu y mae timau fferylliaeth yng Nghymru yn eu cefnogi. Mae'r diwylliant o fewn timau yn hanfodol i lwyddiant datblygiad y tim cyfan, gydag arweinyddiaeth yn cael ei darparu ar bob lefel a llwybrau datblygu clir ar waith.

ENGHRAIFFT ARFER DA 7

Mae Robert Cousins, fferylllydd cymunedol arolygol Insync Pharmacy yng Nghaerdydd, wedi gweithredu rhaglen hyfforddi strwythuredig i ddatblygu'r gweithlu fferyllol. Mae Robert wedi dangos sut y gall hyfforddiant gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod o fudd nid yn unig i'r system gofal iechyd ehangach ond hefyd i'r cwmni.

Mae Insync yn hyrwyddo datblygiad staff ac o fewn y blynyddoedd diwethaf mae wedi cefnogi datblygiad tri fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, pedwar technegydd fferyllfa, ynghyd â datblygiad ehangach yr holl staff cymorth. Mae'r cyfleoedd dysgu a datblygu a gynigir gan Insync wedi eu galluogi i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau clinigol i gleifion a sicrhau boddhad staff a'u cadw.

Mae Insync wedi ehangu ei ddatblygiad gweithlu yn allanol trwy gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi fferyllwyr sylfaen, gan gefnogi hyfforddiant tri ar ddeg o fferyllwyr yn ystod y 5 mlynedd diwethaf trwy'r strwythur aml-sector. Mae Insync hefyd yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr israddedig, lleoliadau fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru a defnyddio arbenigedd eu fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol i weithredu fel Ymarferwyr Rhagnodi Dynodedig i fferyllwyr eraill sy'n ceisio statws rhagnodwyr annibynnol.

22. Mwy na geiriau, Llywodraeth Cymru (2022). Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf>

AMCAN 2025

CYNYDDU DEALLTWRIAETH ARFER FFERYLLOL YM MHOB LLEOLIAD AR GYFER GWEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL GYRFA CYNNAR TRWY DULL AML-SECTOR

I gyflwyno gweithlu fferyllol sy'n gallu cyflawni'r weledigaeth o 'Gymru Iachach': gweithlu sy'n gallu gweithio, cyfathrebu a deall llwybr cyfan gofal cleifion, mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu gweithlu hyblyg gyda sgiliau a dealltwriaeth o wahanol leoliadau gofal.

Ers 2022, mae hyfforddeion fferyllwyr sylfaen yng Nghymru wedi elwa o brofiad amlsector; o fis Awst 2025, bydd y flwyddyn hyfforddi hon yn ymgorffori'r cymhwyster rhagnodi annibynnol. Mae'r 'Rhaglen Fferyllwyr Sylfaen Ôl-gofrestru' yn cynnig amser astudio gwarchodedig; mae'r amser hwn yn cynnig cyfle i hyfforddeion gysgodi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn lleoliad gwahanol.

Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru ac AaGIC bellach yn golygu bod gan israddedigion fferylliaeth sy'n astudio yng Nghymru fynediad at leoliadau clinigol amlsector fel rhan o'u hastudiaethau. Mae'r lleoliadau hyn yn sicrhau y gall fferyllwyr sy'n fyfyrwyr fodloni canlyniadau dysgu IETP y GPhC mewn safleoedd hyfforddi sicrwydd ansawdd, gan ennill profiad ymarfer gwerthfawr ar y cam cynharaf o'u datblygiad gyrfaol.

Mae technegwyr fferyllfa cyn-gofrestru, trwy fynediad at gyfleoedd dysgu pwrpasol a hwylusir gan AaGIC, bellach yn elwa o'r amser a dreulir mewn gwahanol leoliadau fel rhan o'u hyfforddiant a'u datblygiad. Mae hyn yn cefnogi datblygiad technegwyr fferyllfa i ddeall eu rolau mewn gwahanol leoliadau, sicrhau eu bod yn bodloni'r holl gymwyseddau hyfforddi sy'n ofynnol gan y GPhC, ac yn rhoi darlun a dealltwriaeth fwy cyflawn iddynt o siwrnai gyfan y claf.

ENGHRAIFFT ARFER DA 8

Canfu Simon Evans, a weithiodd ar draws sawl sector fel fferylllydd sylfaen ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, fod hyn yn brofiad amhrisiadwy o ran datblygu ei wybodaeth glinigol a'i dealltwriaeth o siwrnai gyfan y claf. Mae hyfforddiant Simon yn y gymuned, yn yr ysbyty,

a gofal sylfaenol yn tynnu sylw at sut mae pob sector yn cyfrannu at ofal cleifion – o ragnodi a gwneud penderfyniadau clinigol i ddosbarthu, cwnsela, ac optimeiddio meddyginiaethau tymor hir. Roedd profi'r gwahanol leoliadau hyn o lygad y ffynnon yn caniatáu i Simon weld sut mae gofal yn cael ei ddarparu ar hyd bob cam, yn ogystal â'r heriau y mae cleifion yn eu hwynebu yn aml wrth drosglwyddo rhwng gwasanaethau. Mae Simon bellach yn teimlo bod ganddo bersectif mwy cyfannol ar ofal cleifion, sgiliau cyfathrebu cryfach, wedi datblygu sgiliau datrys problemau, ac â'r gallu i weithio'n effeithiol o fewn y tim amlddisgyblaethol. Yn y pen draw, mae'r hyfforddiant aml-sector nid yn unig wedi paratoi Simon i ddarparu mwy o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwella canlyniadau cleifion ond mae hefyd wedi ei wneud yn fferylllydd hyderus a chyflawn. Mae Simon bellach yn teimlo'n gwbl barod i'w ymarfer fel fferylllydd a chyfrannu'n gadarnhaol at ofal cleifion.

ENGHRAIFFT ARFER DA 9

Mae technegwyr fferyllfa cyn-gofrestru yn ysbyty Glangwilli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda bellach yn elwa o brofiad hyfforddi aml-sector. Mae hyfforddeion yn elwa o gyfleoedd dysgu a datblygu wrth weithio gyda'r timau optimeiddio meddyginiaethau o fewn gofal sylfaenol. Yna mae lleoliadau hyfforddi gofal eilaidd yn canolbwyntio ar ddosbarthu, rheoli risg, ag ymdrin â digwyddiadau critigol, er mwyn sicrhau bod yr hyfforddai yn bodloni'r holl gymwyseddau dymunol.

Emma Morgan oedd y technegydd fferyllfa cyn-gofrestru cyntaf o'r ysbyty hwn i ymgymryd â'r math hwn o gyfle hyfforddi. Canfu Emma fod y profiad aml-sector hwn wedi gwella ei dealltwriaeth o siwrnai'r claf wrth gynyddu ei hymwybyddiaeth o waith mewn gwahanol leoliadau. Yn dilyn ei hyfforddiant, mae Emma'n gobeithio parhau i weithio mewn rôl aml-sector i gymhwyso ei gwybodaeth am y ddwy sector, gwella gofal cleifion a sicrhau bod siwrnai'r claf yn ddi-dor.


AMCAN 2025

CYFOETHOGI GWASANAETHAU SYDD AR GAEL I GLEIFION TRWY GYNYDDU GALLUOGRWYDD A CHYSONDEB SGILIAU O FEWN TIMAU FFERYLLIAETH

Gwnaed cynnydd gwyh o ran uwchsgilio timau a chynyddu mynediad at wasanaethau, a amlygwyd trwy gydol y ddogfen hon.


GWASANAETH FFERYLLWYR-RAGNODWYR ANNIBYNNOL

Ionawr 2023 Ebrill 2025



YSTADEGAU ALLWEDDOL O FFERYLLFEYDD CYMUNEDOL MEHEFIN 2025

Mae pob ffigur yn dangos nifer yr ymgynghoriadau a ddarparwyd



Mewn ysbytai a lleoliadau gofal sylfaenol, mae cleifion yn elwa fwyfwy o sgiliau timau fferylliaeth, wedi'u gwreiddio mewn Timau Amlddisgyblaethol ac yn rheoli llwythi achosion cymhleth o gleifion mewn clinigau (gweler enghreifftiau o arfer da isod).

ENGHRAIFFT ARFER DA 10

Yn 2024, gosodwyd peiriant Haematoleg Pwynt Gofal (Pochi) yng nghlinig Clozapine yn Ysbyty Cwm Cynon a Pharc Iechyd Keir Hardie ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae hyn wedi golygu bod cleifion bellach yn gallu casglu eu meddyginiaeth yn yr un apwyntiad â'u profion gwaed, gan atal yr oedi o wythnos rhwng profion gwaed a darparu'r feddyginiaeth.

Mae'r technegydd fferyllfa arweiniol ar gyfer y clinig, Karen Tompkins, yn arwain y gwaith o reoli meddyginiaethau clozapine ar gyfer cleifion. Fel rhan o'r gwasanaeth, bydd Karen yn sgrinio presgripsiynau ar gyfer eu cyfreithlondeb a chywirdeb dosau ac yn monitro gwefan ZTAS i wirio bod y canlyniadau o fewn ystodau arferol i sicrhau bod y feddyginiaeth a ddosbarthir yn cyrraedd y clinig i'w gyflenwi i'r claf. Mae cynlluniau rheoli yn cael eu creu os yw'r canlyniadau allan o ystod. Mae holl ymholiadau am feddyginiaethau gan dîm y clinig yn cael eu cyfeirio at Karen yn y lle cyntaf a'u huwchgyfeirio lle bo angen, i'r fferyllwyr iechyd meddwl, gan ddangos gwasanaeth diogel ac effeithiol dan arweiniad technegydd fferyllfa i gleifion.

ENGHRAIFFT ARFER DA 11

Mae technegwyr fferyllfa sydd wedi'u gwreiddio o fewn Timau Adnoddau Cymunedol (CRT) ac sy'n gweithio'n agos gyda'r holl ddisgyblaethau o fewn y rhwydwaith gofal sylfaenol yn cefnogi cleifion yn eu cartref gyda'u hanghenion meddyginiaeth ar draws byrddau iechyd. Un enghraifft o'r fath ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn gweld cleifion yn cael eu cyfeirio at y tîm gyda materion sy'n cynnwys methu â chydymffurfio, casglu meddyginiaeth a dryswch gyda threfnau meddyginiaeth.

Mae Rachael Roberts, technegydd fferyllfa yn arwain gwasanaeth 'allgymorth' a ddatblygwyd i adolygu cleifion sydd mewn perygl o ddigwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaeth yn y gymuned, gan ddefnyddio dull 'rhagweithiol' o gadw cleifion yn iach gartref a lleihau derbyniadau i'r ysbyty. Mae hyn hefyd wedi cefnogi dull tîm amlddisgyblaethol tuag at ofal cleifion, gan dynnu sylw at y gwerth gwirioneddol y mae timau fferylliaeth yn eu cynnig.

AMCAN 2025

**SEFYDLU RHWYDWAITH O FFERYLLWYR
YMGYNGHOROL I GYNNIG
ARWEINYDDIAETH AR FEYSYDD
BLAENORIAETH CLINIGOL YNG NGHYMRU**

Mae fferyllwyr ymgynghorol yn arbenigwyr clinigol sy'n gweithio ar lefel uwch, yn darparu gofal ac yn sbarduno newid ar draws y system gofal iechyd. Bydd unigolion wedi cwblhau'r broses gymhwysu a gymeradwywyd gan RPS ac wedi dangos bod ganddynt y lefel o gymhwysedd a ddisgwylir gan ymarferwyr ymgynghorol. Mae proses gyfochrog ar waith i'r RPS, fel y corff proffesiynol i adolygu a chymeradwyo swyddi fferylllydd ymgynghorol.

Ers i PDaHW gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2019, rydym wedi gweld cyflwyno deg swydd fferylllydd ymgynghorol ychwanegol yng Nghymru, gyda 21 o fferyllwyr ymgynghorol bellach yn eu swyddi.²³

Mae niferoedd cynyddol o fferyllwyr yng Nghymru, sydd naill ai wedi cael eu credydu neu yn y broses o gael eu hardystio gyda'r RPS. Mae llawer o'r fferyllwyr hyn yn cael eu cefnogi gan Gymuned Ymarfer Fferyllwyr Ymgynghorol AaGIC. Trwy

gefnogi mwy o fferyllwyr sy'n dyheu i fod yn y rolau arweinyddiaeth glinigol hyn, mae angen i ni greu llwybrau ffurfiol i ddilyniant gyrfa sy'n sicrhau ac yn cydnabod ymarfer ar lefel uwch ac ymgynghorol drwy brosesau cadarn fel credydu proffesiynol.

FFERYLLYDD YMGYNGHOROL SY'N CREDYDU CYMUNED ARFER

O ganlyniad i gynllun peilot cymuned ymarfer credydu fferylllydd ymgynghorol cychwynnol yn 2022, cyflawnodd 8 allan o 12 fferyllfa a gyflwynodd bortffolios ar gyfer asesiad RPS gan bwyllgor cymhwysedd clinigol y cymhwyster.

Roedd consensws eang y dylai cymuned ymarfer credydu fod yn nodwedd barhaol ond deinamig o GIG Cymru, i gefnogi'r fferyllwyr hynny sy'n ailgyflwyno portffolios a'r rhai sy'n cychwyn ar eu siwrnai gredydu.

Mae craidd o fferyllwyr wedi'u credydu o'r garfan gyntaf wedi bwrw ymlaen â dysgu o'r peilot i gefnogi ail garfan i'w credydu gyda'r nod o gyflwyno portffolios.

Darperir y gymuned ymarfer mewn partneriaeth ag AaGIC, a gall yr holl weithwyr fferylliaeth proffesiynol sydd wedi'u cofrestru gydag AaGIC ar blatfform Y Tŷ Dysgu ddarganfod mwy trwy'r ddolen ganlynol [Arfer ymgynghoryddfferyllol – Porth YTD AaGIC](#)

CAMAU NESAF A 2028 CADW A RECRIWTIO

Gan adeiladu ar yr ymgyrch National Train Work Live a thrwy gyflawni'r camau gweithredu yn y 'Cynllun Gwaith Fferylliaeth Strategol'⁹, byddwn yn adnewyddu ein hymdrechion i recriwtio a chadw'r fferyllwyr a'r technegwyr fferyllfa gorau, gan gynnig gyrfaedd deniadol, amrywiol mewn fferylliaeth, ynghyd â manteision hyfforddi, ymarfer a byw yng Nghymru. Mae hyn yn dechrau gydag ysgolion yng Nghymru; trwy gymryd dulliau arloesol at godi ymwybyddiaeth o yrfaoedd amrywiol sydd ar gael mewn fferylliaeth a'r llwybrau i gael mynediad atynt byddwn yn denu ac yn datblygu gweithwyr fferylliaeth proffesiynol yn y dyfodol sy'n adnabod, yn deall ac sy'n pryderu am gymunedau yng

23. Cyfeiriadur o swyddi ymgynghorol cymeradwy, RPS. Ar gael o: <https://www.rpharms.com/development/credentialing/consultant/directory-of-approved-consultant-pharmacist-posts>

Nghymru. Rhaid i ni ehangu mynediad at greu gweithlu amrywiol, sy'n adlewyrchu pobl a chymunedau Cymru, gweithlu sydd eisiau ymarfer yng nghymunedau Cymru ymhell ar ôl i'w hyfforddiant gael ei gwblhau.

Dan arweiniad un o Gymrodwr Arweinyddiaeth Glinigol Cymru yn AaGIC, crëwyd adnodd rhithrealiti i ddarparu profiad gwaith rhithiol i blant 13-18 oed. Gan ddefnyddio realiti rhithiol a chwarae gemau, mae'r offeryn VR yn galluogi plant i gael mynediad at a phrofi sut brofiad fyddai gweithio mewn fferyllfa gymunedol.

<https://vimeo.com/1099642062/4c05fbd9d9?share=copy>

Mae Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gwaith allgymorth gyda disgyblion oedran ysgol, gan godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at y swyddi amrywiol a gwerth chweil y gall gyrfa mewn fferylliaeth eu cynnig. Yn nodweddiadol, mae hyn yn canolbwyntio ar ben uchaf addysg ysgol ond yn datblygu cynlluniau i ymgysylltu ar lefel ysgol gynradd yn y dyfodol agos.

Bydd hyfforddiant fferyllwyr sylfaen yn parhau i fod yn gynnig amlsector, gan ddarparu profiad hyfforddi amrywiol ac yn sicrhau bod Cymru yn lle hyfryd i hyfforddi ar gyfer graddedigion. Mae'n hanfodol o hyd ein bod yn cadw'r fferyllwyr sylfaen gorau oll wrth gofrestru, a'n bod yn sicrhau piblinell o fferyllwyr, gan ymarfer yn y cymunedau y maent wedi hyfforddi ynddynt.

Mae cefnogi fferyllwyr sylfaen trwy eu blynyddoedd cynnar yn parhau i fod yn sylfaenol. Bydd rhaglen hyfforddiant fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru AaGIC, drwy weithredu cwricwlwm fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru'r RPS, yn parhau i gefnogi'r ymarferwyr hyn a darparu llwybr clir i ddatblygu'r sgiliau i symud ymlaen i'r llwybrau credydu arfer uwch RPS.

Bydd technegwyr fferyllfa yn cael eu galluogi ymhellach i ddefnyddio eu sgiliau clinigol a thechnegol, gan gyflwyno mwy o ofal sy'n wynebu cleifion a thrwy newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth, ymgymryd â mwy o rôl o ran goruchwyllo gwasanaethau fferylliaeth ym mhob lleoliad.

Rhaid ystyried cynllunio swyddi fel galluogwr allweddol i ddatblygu'r gweithlu, wrth gyflawni safonau uchel o ofal a phroffesiynoldeb ar draws pob lleoliad. Mae hefyd yn rhoi cyfle posibl i dyfu gyrfaedd portfolio a gweithio ar draws sectorau.

Er mwyn cefnogi trawsnewid a chymhwyso fframweithiau datblygu gyrfa, bydd cynlluniau swyddi yn cael eu datblygu ar gyfer holl rolau tîm fferylliaeth sy'n darparu gwasanaethau'r GIG. Dylai cynlluniau swyddi ar gyfer gweithwyr fferylliaeth proffesiynol gynnwys amser gwarchodedig ar gyfer dysgu, addysgu ac ymchwil, sy'n gymesur â chyfnod gyrfaedd pobl, ynghyd â disgwyliad gweithwyr fferylliaeth proffesiynol hefyd yn cymryd eu hamser ar gyfer hunanddatblygiad. Mae Pwyllgor Fferyllol Cymru yn credu y dylai pob gweithwyr fferylliaeth proffesiynol gael amser dysgu gwarchodedig o fewn oriau gwaith ac mae wedi cyhoeddi datganiad sefyllfa i adlewyrchu hyn.²⁴ Yn unol â pholisi Amser Dysgu Gwarchodedig RPS,²⁵ dylid ystyried amser dysgu gwarchodedig fel amser i ddatblygu eich hun, amser i ddatblygu eraill ac amser i ddatblygu gwasanaethau/cynnal ymchwil. Gall darparu'r cymorth hwn gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant, gan gefnogi datblygiad ar draws pob maes ymarfer proffesiynol.

24. Amser dysgu gwarchodedig i fferyllwyr: datganiad sefyllfa, Pwyllgor Fferyllol Cymru, 2024, Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/amser-dysgu-gwarchodedig-i-fferyllwyr-datganiad-sefyllfa>

25. Amser dysgu gwarchodedig, RPS (2023), Ar gael o: <https://www.rpharms.com/recognition/all-our-campaigns/policy-a-z/protected-learning-time>

AMCAN 2028

BYDD SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH A CHYFLOGWYR YNG NGHYMRU, WEDI'U CEFNOGI GAN ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU, YN CYNNIG GYRFAOEDD FFERYLLIAETH SY'N HYRWYDDO RECRIWTIO A CHADW GWEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL GYDA'R SGILIAU Y MAE CLEIFION A'R GIG YNG NGHYMRU EU HANGEN, AC SY'N ADLEWYRCHU AMRYWIAETH A DIWYLLIANT POBL CYMRU.

- Byddwn yn cynyddu nifer y disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol yng Nghymru sy'n dilyn gyrfa mewn fferylliaeth yng Nghymru.
- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sy'n ymgymryd â hyfforddiant sylfaen yng Nghymru a chyfran o'n fferyllwyr sylfaen a hyfforddodd yn un o ysgolion fferylliaeth Cymru.
- Byddwn yn lleihau cyfran y swyddi fferylliaeth a thechnegwyr fferyllol heb eu llenwi ym mhob sector ymarfer.
- Byddwn yn cynyddu cyfran y gweithlu fferylliaeth sy'n gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd gyda chleifion a'r cyhoedd yn y Gymraeg.

CYFLENWI A SIÂP Y GWEITHLU

*"Erbyn 2030, bydd gennym weithlu cynaliadwy mewn niferoedd digonol i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth".
(Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol AaGIG)⁹*

Ein hamcan, gan alinio â holl weithlu iechyd a gofal, yw sicrhau bod gennym weithlu fferyllol cynaliadwy, amrywiol a medrus sy'n defnyddio sgiliau holl aelodau'r tîm fferylliaeth yn llawn. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni gael darlun cyflawn yn gyntaf o hyd a lled y gweithlu fferyllol cyfan le bynnag y maent yn darparu gwasanaethau'r GIG. Gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan System Adrodd y Gweithlu Cenedlaethol Cymru a Chofnod Staff Electronig y GIG, gallwn gael y mewnwelediad angenrheidiol i batrymau a thueddiadau o fewn y gweithlu fferyllol i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cleifion, y cyhoedd a'r GIG yng Nghymru.

Bydd hyn yn cefnogi dull sy'n cael ei yrru gan ddata i gynllunio a chaniatáu mesur effaith strategaethau comisiynu, denu, recriwtio a chadw ar draws y GIG.

Bydd timau fferylliaeth yn cael eu gwreiddio ymhellach mewn timau amlddisgyblaethol, gyda'r cymysgedd sgiliau cywir a chynllunio tymor hir ar gyfer y gweithlu, er mwyn sicrhau bod gennym y gallu i ddarparu gofal fferyllol i bobl Cymru.

AMCAN 2028

BYDDWN YN GWELLA EIN DEALLTWRIAETH O HYD A LLED Y GWEITHLU FFERYLLIAETH YNG NGHYMRU GAN DDEFNYDDIO DATA I DDATBLYGU GWEITHLU SY'N BODLONI ANGEN POBL AM OFAL FFERYLLOL A GWASANAETHAU FFERYLLIAETH.

- Byddwn yn gweithredu'r offeryn adrodd cenedlaethol ar gyfer y gweithlu yn llawn mewn fferylliaeth gymunedol ac yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei darparu, ynghyd â'r wybodaeth y mae'r offeryn adrodd yn ei darparu ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sy'n gweithio ym mhractis meddygon teulu.
- Byddwn yn cynnal asesiad blynyddol o weithlu fferylliaeth ysbytai yn erbyn yr asesiad gwaelodlin a gynhaliwyd yn 2025 yn unol â'r blaenoriaethau yn [Adolygiad o wasanaethau fferylliaeth glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#).

LLWYBRAU GYRFAOL

Yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr 'Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Clinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru'⁷, mae angen gweithlu fferylliaeth haenog o hyrwyddo ymarfer, drwy asesu credydu yn unol â'r pedair colofn ymarfer o fewn Cwricwlwm Ôl-gofrestru RPS. Mae credydu yn rhoi sicrwydd ansawdd i'r cyhoedd a chyflogwyr o gyrhaeddiad y wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau sy'n angenrheidiol i weithiwr proffesiynol ar lefel benodol.

Mae'r broses gredydu yn basbort sy'n cydnabod bod cymwyseddau a gyflawnir mewn un lleoliad yn drosglwyddadwy i un arall, gan hwyluso gweithlu

llyfn, ystwyth, yr ymddiriedir ynddo i ddarparu gofal ar draws lleoliadau.

Datblygir fframwaith datblygu ôl-gofrestru ar gyfer technegwyr fferyllfa, a gefnogir gan gwricwla ac asesiadau sicrwydd carreg filltir sy'n creu gweithlu o ymarferwyr sy'n datblygu.

Bydd technegwyr fferyllfa yn parhau i ddatblygu ac ehangu eu rolau ym mhob sector ymarfer, gan barhau i gyflawni nifer gynyddol o wasanaethau clinigol yn wynebu'r claf. Bydd y newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth goruchwyllo yn helpu'r gweithlu technegwyr fferyllfa i ddefnyddio eu sgiliau a bydd holl weithlu technegwyr y fferyllfa yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad i gyflawni'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl Cymru. Bydd cynnydd gyrfaol a chyfleoedd datblygu yn hygyrch i bob aelod o'r tîm fferylliaeth, gan gefnogi gweithlu sy'n parhau i uwchsgilio ac sy'n darparu llwybr clir ar gyfer dyfodol boddhaus o fewn fferylliaeth.

AMCAN 2028

BYDDWN YN CYTUNO AR LWYBRAU GYRFAOL ÔL-GOFRESTRU CYMRU GYFAN AR GYFER HOLL WEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL MEWN ROLAU CLINIGOL YN YMRIN Â PHOB SECTOR O ARFER FFERYLLIAETH, GAN DDARPARU YSTOD O GYFLEOEDD I AELODAU EHANGACH TIMAU FFERYLLIAETH I WELLA EU GALLUOGRWYDD, EHANGU EU HYMARFER, A CHYMRYD ROLAU NEWYDD.

- Byddwn yn ymgynghori, cyhoeddi a gweithredu fframwaith gyrfa ôl-gofrestru Cymru gyfan ar gyfer pob fferylllydd sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.
- Byddwn yn dechrau datblygu fframwaith gyrfa ôl-gofrestru ar gyfer technegwyr fferyllfa.
- Byddwn yn cynnig mwy o gyfleoedd i dimau fferylliaeth mewn ysbytai i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau a ddisgrifir yn [Adolygiad o wasanaethau fferylliaeth glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#).
- Byddwn yn cwblhau blaenolwg o ddeng mlynedd o ofynion cymhwysedd gweithlu

fferyllfeydd cymunedol ac yn defnyddio hyn i ddiffinio anghenion addysg, hyfforddiant a datblygu gyrfa fferyllwyr, technegwyr fferyllfa a gweithlu ehangach fferyllfeydd cymunedol.

RHAGNODI

Gyda'r holl fferyllwyr cofrestredig newydd yn cael eu hawdurdodi i ragnodi ar bwynt cofrestru o 2026, a'r nifer cynyddol o gofrestreion cyfredol sydd wedi cwblhau hyfforddiant rhagnodi ôl-raddedig, mae'n hanfodol bod holl sgiliau fferyllwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol er budd cleifion a'r GIG.

Bydd fferyllwyr yn cael eu cefnogi i adeiladu rhwydweithiau cyfoedion, lle gallant fyfyrto a rhannu profiadau. Bydd y rhwydweithiau hyn yn helpu i atal ymarferwyr rhag dod yn ynysig a chreu cyfleoedd i fferyllwyr mewn gwahanol sectorau i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Bydd hyfforddiant, addysg ac adnoddau i gefnogi ehangu cwmpas ymarfer rhagnodwr ar gael yn rhwydd. Mae mentrau llwyddiannus fel y rhaglen addysgol sydd wedi'i theilwra i gefnogi fferyllwyr cymunedol yng Nghymru i gyflawni Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth (PIPS), a ddarperir ar y cyd gan AaGIC a RPS gyda chefnogaeth gan CPW, yn darparu sylfaen ar gyfer gwella cymhwysedd a magu hyder ymhlith fferyllwyr. Bydd hyn, yn ei dro, yn caniatáu i fferyllwyr-ragnodwyr ehangu ar eu cwmpas ymarfer a gwneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy ystyrlon i'r systemau iechyd y maent yn gweithio ynddynt. Mae AaGIC wedi ymestyn y rhaglen addysgol hon tan fis Mawrth 2028, yng ngoleuni galw mawr ac adborth cadarnhaol gan ymarferwyr.

Bydd fferyllwyr, ar y cyd â rhagnodwyr anfeddygol eraill, yn cael eu cefnogi i ddangos, gwella a chreu tystiolaeth briodol o'u cymhwysedd i ragnodi drwy ddull 'unwaith i Gymru'. Wedi'u datblygu gan AaGIC, mae'r 'Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru'²⁶ yn gosod y gofynion ar gyfer tystio ac adolygu cymhwysedd parhaus i ragnodi a rhoi cyfle i fapio i fframweithiau cymhwysedd eraill. Mae'r safonau hyn hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer asesu a llunio tystiolaeth o anghenion datblygu fferyllwyr-

26. Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru, AaGIC (2023). Ar gael o: <https://aagic.gig.cymru/files/heiw-safonau-ar-gyfer-sicrwydd-cymhwysedd-rhagnodwyr-annibynnol-ac-atodol-yng-nghymru/>

ragnodwyr. Byddant yn galluogi cyflogwyr, comisiynwyr gwasanaethau, cyrff proffesiynol a darparwyr addysg i gefnogi fferyllwyr-ragnodwyr gyda'u datblygiad proffesiynol ac yn derbyn y sicrwydd angenrheidiol i ganiatáu i fferyllwyr ymgymryd â rolau newydd, mwy heriol. Bydd y proffesiwn fferylliaeth yn enghraifft o fabwysiadu safonau AaGIC erbyn 2028.

AMCAN 2028

BYDDWN YN GWEITHREDU'N LLAWN Y SAFONAU AR GYFER SICRWYDD CYMHWYSEDD RHAGNODWYR ANNIBYNNOL AC ATODOL AR GYFER POB FFERYLLYDD YNG NGHYMRU AC YN SEFYDLU PROSESAU SY'N SICRHAU BOD Y WYBODAETH A GESIR O WEITHREDU'R SAFONAU HYN YN CAEL EU DEFNYDDIO I ROI I FFERYLLWYR-RAGNODWYR ER MWYN IDDYNT GAEL Y GEFNOGAETH Y MAE EI

HANGEN ARNYNT I UCHAFU AR DDEFNYDD, DIOGELWCH AC EFFEITHLONRWYDD MEDDYGINIAETHAU TRWY RAGNODI A DAD-RAGNODI.

- Byddwn yn cytuno ac yn gweithredu dull cenedlaethol i sicrhau bod pob fferylllydd ôl sylfaen sy'n gweithio mewn ysbyty GIG neu'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau ysbyty'r GIG yn y gymuned yng Nghymru yn gallu rhagnodi yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Byddwn yn cyflwyno'r defnydd o e-bortffolio gan bob fferylllydd-ragnodwr i ddangos cymhwysedd parhaus ac fel offeryn i wella ymarfer rhagnodi.
- Bydd yr holl fferyllwyr-ragnodwyr yn cadarnhau eu cwmpas ymarfer rhagnodi yn flynyddol a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi cyflogwyr a fferyllwyr-ragnodwyr i ehangu eu cwmpas ymarfer i ddiwallu anghenion y GIG a phobl yng Nghymru.



5 Gofal Fferyllol Di-dor

Roedd sicrhau parhad gofal wrth ddarparu gofal fferyllol yn egwyddor sylfaenol o fewn PDaHW. I sicrhau mae dyma'r realiti ar gyfer pob claf, yn enwedig i sicrhau na cheir unrhyw ymyrraeth i ofal fferyllol claf wrth iddo/iddi bontio rhwng lleoliadau gofal, mae angen dull sy'n canolbwyntio ar y claf lle mae meddyginiaethau yn cael eu hoptimeiddio a niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth yn cael ei atal, mae gan dimau fferylliaeth rôl amlwg a phwysig.

Mae parhad gofal yn gofyn am ddull cydgysylltiedig gyda chydweithrediad effeithiol a chyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd angen i weithwyr fferylliaeth proffesiynol a thimau fferylliaeth chwarae rôl arweiniol wrth sicrhau parhad cyflenwad, cyflwyno a defnyddio meddyginiaethau. Ynghyd â rhannu gwybodaeth cleifion yn amserol trwy systemau digidol rhyngweithredol, bydd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol yn helpu i gadw cleifion yn iach, yn ddiogel rhag niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth, ac yn atal derbyniadau i'r ysbyty.

Mae cleifion yn elwa o arbenigedd timau fferylliaeth, gan weithio fel rhan o Dimau Amlddisgyblaethol ehangach yn gynharach yn eu gofal. Mewn ysbytai, mae timau fferylliaeth wedi'u gwreiddio mewn adrannau argyfwng a brys sy'n galluogi i drafodaethau mwyaf priodol am feddyginiaethau gael eu gwneud ar yr un pryd â phenderfyniadau cychwynnol am ofal cyffredinol. Mae ymchwil yn dangos bod mewnbwn fferyllol yn gynnar yn nerbyniad y claf yn lleihau gwallau meddyginiaeth ac aildderbyniadau. Cefnogir ehangu timau fferylliaeth o fewn lleoliadau gofal brys trwy ddata mesuradwy (*gweler enghreifftiau o arfer da 1 a 2*). Bydd gweithredu camau o fewn 'Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Clinigol' Llywodraeth Cymru yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru,⁷ yn arwain at welliannau pellach mewn gofal heb ei drefnu.

Pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae tystiolaeth bod rhannu gwybodaeth am eu meddyginiaethau yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i ansawdd eu gofal, yn lleihau gwastraff ac yn atal aildderbyn i'r ysbyty. Mae galluogi technegwyr fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth DMR wedi arwain at gynydd yn nifer y DMRs a ddarperir yng Nghymru a chyfran rhyddhau o'r ysbyty lle rhennir gwybodaeth am feddyginiaethau gyda'r fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gofal parhaus i gleifion. Cynhaliwyd mwy na 11,000 DMR yn chwe mis cyntaf 2025 gyda mwy na thri chwarter y rhai a hwyluswyd trwy drosglwyddo gwybodaeth rhyddhau electronig rhwng yr ysbyty a fferyllfa'r claf.

Unwaith y byddant gartref, mae cleifion yn elwa o arbenigedd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol i helpu i wella ymlyniad meddyginiaethau. Mae gwasanaethau cymunedol mewn llawer o ardaloedd byrddau iechyd yn cael eu harwain gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sy'n gweithredu llwybrau gofal di-dor. Mae'r gwasanaethau hyn fel y rhai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu cymorth hanfodol i gleifion sy'n profi problemau wrth reoli eu meddyginiaethau.

Bydd timau fferylliaeth sy'n gweithio ar draws pob lleoliad yn parhau i sicrhau bod meddyginiaethau cleifion yn cael eu hoptimeiddio lle bynnag y maent yn derbyn eu gofal a bydd yn cefnogi darparu mwy o wasanaethau yn agosach at gartrefi cleifion. Erbyn 2028, bydd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol yn gwneud y defnydd gorau o'r atebion digidol sydd ar gael i sicrhau bod gofal yn cael ei drosglwyddo'n ddiogel rhwng lleoliadau.

MYFYRIO AR GYNNYDD AC AMCANION 2025

AMCAN 2025

CYNYDDU MYNEDIAD CLEIFION AT FFERYLLWYR-RAGNODWYR ANNIBYNNOL (PIP), GAN SICRHU BOD ARBENIGEDD PIP YN CAEL EI DDEFNYDDIO'N LLAWN AR DRAWS POB LLEOLIAD GOFAL

Tynnwyd sylw hefyd at gynnydd sylweddol yn argaeledd fferyllwyr-ragnodwyr eisoes. Mae'n cynrychioli newid sylweddol o ran cyflawni gwasanaethau clinigol a thrawsnewid rôl fferyllfeydd cymunedol ers cyhoeddi PDAHW yn gyntaf.

Mewn ysbytai yng Nghymru, mae fferyllwyr-ragnodwyr yn darparu clinigau sy'n cefnogi cleifion mewn sawl maes clinigol. Drwy gyflawni'r camau yn yr 'Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Clinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru',²⁷ bydd sgiliau fferyllwyr-ragnodwyr yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol ac ar gael yn fwy cyfartal i gefnogi cleifion a bodloni blaenoriaethau'r GIG.

Mae fferyllwyr-ragnodwyr bellach wedi'u gwreiddio o fewn model clinigol GIG lli Cymru ac yn rhan annatod ohono, gan gefnogi cleifion a lleihau'r galw ar adrannau brys. O fewn practisau meddygon teulu, mae nifer gynyddol o fferyllwyr yn defnyddio eu sgiliau rhagnodi i optimeiddio meddyginiaethau cleifion

AMCAN 2025

OPTIMISE THE USE OF MEDICINES AND MINIMISE THE RISK OF MEDICATION RELATED HARM FOR SCHEDULED CARE AS PATIENTS TRANSFER BETWEEN CARE SETTINGS.

Yn y cyfnod 12 mis rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, nododd dros 35% o bron i 21,000 DMR a gwblhawyd o leiaf un gwahaniaeth rhwng y meddyginiaethau y rhagnodwyd i glaf wrth eu rhyddhau o'r ysbyty a'r rhai a roddwyd iddynt mewn gofal sylfaenol. Datryswyd cymaint ag 85% o'r rhain yn y fferyllfa gymunedol (Ffynhonnell ddata: CPW). Bydd gwelliannau pellach i fynediad fferyllfa at wybodaeth wrth ryddhau cleifion yn arwain at ostyngiadau pellach mewn niwed pan fydd pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mae datrys anghysondebau wrth ryddhau trwy ddarparu mwy o DMRs yn cynnig rhwyd ddiogelwch bwysig, ond mae timau fferylliaeth gofal eilaidd mewn sefyllfa dda i gymryd camau rhagweithiol i atal niwed a hyrwyddo llesiant. Gall fferyllwyr sy'n darparu gwasanaethau gofal amlawdriniaethol a rhagsefydlu, nodi ffactorau risg y gellir eu haddasu a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac fel rhagnodwyr, cymryd camau i wneud y gorau o feddyginiaethau pobl (e.e. ar gyfer rheoli pwysedd gwaed uchel,

diabetes ac anemia) mewn ffordd a fydd yn gwella'r canlyniadau a gânt o ofal a gynlluniwyd. Dyma un ffordd y gall timau fferylliaeth mewn ysbytai gefnogi dull Llywodraeth Cymru o aros yn iach a amlinellir yn 'Annog, Atal, Amser Paratoi ar gyfer Gofal Dewisol'.²⁷

Er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion sy'n oedolion sydd angen cymorth i reoli meddyginiaethau gartref yn ddiogel ac yn amserol, mae technegwyr fferyllfa yn arwain gwasanaethau sy'n cefnogi cleifion yn eu cartref eu hunain. Yn dilyn atgyfeiriad gan dimau fferylliaeth ysbyty, mae technegwyr fferyllfa mewn gofal sylfaenol, fel y rhai mewn Timau Adnoddau Cymunedol yn ymweld â chleifion yn eu cartrefi eu hunain, i ddarparu cefnogaeth wedi'i theilwra'n briodol a lle bo angen, ymyriadau, i wella'r defnydd o feddyginiaethau. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwella gallu cleifion i reoli eu meddyginiaethau gartref; gan gefnogi annibyniaeth hirdymor; lleihau'r angen am becynnau gofal drud ar gyfer 'rhoi meddyginiaethau yn y cartref' ac yn lleihau'r galw am ymyriadau gofal iechyd sy'n gysylltiedig â chytundeb meddyginiaethau sy'n anfwriadol wael, er enghraifft, aildderbyn i'r ysbyty.

ENGHRAIFFT ARFER DA 12

Mae Melanie Owen, technegydd fferyllfa arbenigol sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn darparu gwasanaeth fferylliaeth clinigol sefydlog dan arweiniad technegydd fferyllfa i'r ward arthroplasti orthopedig ddewisol heb yr angen am oruchwylydd fferylliaeth uniongyrchol. Mae Melanie yn cynnig gwasanaeth rheoli meddyginiaeth sy'n cynnwys adolygiadau siart meddyginiaethau, cysoni meddyginiaethau ac optimeiddio gan gynnwys trawsgrifio presgripsiynau wrth ryddhau ar gyfer ei maes arbenigol. Mae Melanie hefyd yn sgrinio meddyginiaeth sydd newydd ei rhagnodi o fewn cwmplas ei hymarfer ac yn cyrchu ac yn adolygu microbioleg a chanlyniadau gwaed ôl-lawdriniaeth gan gynnwys electrolytau, cyfrif gwaed llawn a lefelau cyffuriau therapiwtig.

²⁷. Annog, atal ac amser paratoi ar gyfer gofal a gynlluniwyd, Llywodraeth Cymru, 2023, Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/annog-atal-ac-amser-paratoi-ar-gyfer-gofal-gynlluniwyd>

AMCAN 2025

SEFYDLU SYSTEMAU ATGYFEIRIO UNIONGYRCHOL RHWNG GWASANAETHAU FFERYLLIAETH, GAN WELLA EFFEITHLONRWYDD WTH GYFLAWNI GWASANAETH

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i sefydlu systemau atgyfeirio at wasanaethau fferyllol ac oddi yno, mae'r rhain yn anffurfiol i raddau helaeth ac yn cael eu datblygu'n lleol, er enghraifft, rhwng practis meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol. Nid yw llwybrau atgyfeirio ffurfiol rhwng gwasanaethau wedi'u sefydlu'n rheolaidd. Drwy gydol yr ymarfer ymgysylltu, clywsom am yr angen i sefydlu systemau cyfeirio cadarnach, gyda nifer gynyddol o weithgarwch clinigol yn cael ei ddarparu gan fferyllwyr a bellach thechnegwyr fferyllfa, mae gwasanaethau fferyllol yn delio â chleifion ag anghenion cynyddol gymhleth. Mae'r cymhlethdod cynyddol yn golygu ei fod yn angenrheidiol i wasanaethau fferyllol allu trosglwyddo gofal pobl yn ddi-dor i ddarparwyr mwy priodol pan na all fferyllwyr ddiwallu eu hanghenion gofal.

Mae gwella integreiddio gwasanaethau fferyllol mewn llwybrau gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gan adeiladu ar y dysgu o gynlluniau peilot sydd wedi'u sefydlu'n ddiweddar i ehangu ac integreiddio rôl fferylliaeth wrth ddarparu gofal.

ENGHRAIFFT ARFER DA 13

Mae Gareth Hughes, fferyllwyr cymunedol o Fferyllfa Tynewydd, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi gweithio ochr yn ochr â thîm y bwrdd iechyd lleol i sefydlu peilot lle gall y fferyllwyr ofyn i samplau wrin canol (MSU) gael eu hanfon ar gyfer profion meithriniaid a sensitifrwydd. Drwy weithio gydag Iechyd Digidol a Gofal Cymru, rhoddwyd mynediad i Gareth at Borth Clinigol Cymru ac roedd yn gallu dangos prawf technegol o gysyniad trwy ddefnyddio samplau ffug. Unwaith y sefydlwyd y logisteg dechnegol, llwyddodd Gareth i integreiddio'r defnydd o samplau MSU yn ei ymarfer rhagnodi, lle mae canllawiau clinigol wedi dangos buddion

profi. Mae canlyniadau profion MSU wedi dangos, yn y rhan fwyaf o achosion, y driniaeth gychwynnol a ragnodwyd oedd y mwyaf priodol. Fodd bynnag, cafwyd achosion sydd wedi dangos y manteision i fferylliaeth gymunedol gyrchu'r profion hyn, lle mae data sensitifrwydd wedi arwain at Gareth yn newid triniaeth. Mae'r gwasanaeth hwn wedi caniatáu ffurfio perthnasoedd rhwng y fferyllwyr cymunedol a'r tîm microbiolog sydd wedi lleihau'r angen i gleifion gael eu pasio rhwng y fferyllfa a meddyg teulu a darparu mynediad cyflym at gyffuriau gwrthficrobaidd priodol. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi caniatáu i Gareth drin cleifion mwy cymhleth, lle mae MSU yn cael eu dangos yn glinigol, gan leihau nifer yr atgyfeiriadau meddygon teulu.

AMCAN 2025

PARHAU I DRAWSNEWID MYNEDIAD AT FEDDYGINIAETHAU (TRAMS) I'R MEDDYGINIAETHAU MWYAF ARLOESOL SY'N ACHUB BYWYD GAN GYNNWYS THERAPÏAU CANSER, GWRTHFIOTIGAU MEWNWYTHIENOL A MAETH PARENTEROL AR GYFER CLEIFION YNG NGHYMRU

Cafodd achos busnes rhaglen Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS)²⁸ ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru yn 2021 a'i nod yw trawsnewid cyflawni gwasanaethau technegol fferylliaeth a pharatoi meddyginiaethau yn aseptig yn y GIG yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn gwella'n fawr fynediad at feddyginiaethau critigol, canlyniadau cleifion a gofal fferyllol ledled Cymru, drwy greu gwasanaethau technegol cenedlaethol a rhanbarthol mewn cyfleusterau modern, pwrpasol gan gynnwys radiofferylliaeth, paratoi therapi gwrth ganser systemig (SACT) maeth parenterol (PN), ac ychwanegion mewnwythiennol canolog (CIVAS).

28. Trawsnewid mynediad at feddyginiaethau, GIG Cymru, Ar gael o: <https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/trawsnewid-mynediad-at-feddyginiaethau/>

Disgwylir i gam cyntaf y rhaglen TrAMS gael ei gwblhau yn 2026 drwy adeiladu a chomisiynu cyfleuster radiofferylliaeth newydd i wasanaethu ysbytai yn Ne Cymru. Mae gwaith hefyd ar y gweill i gwblhau'r achos busnes ar gyfer yr uned ranbarthol aseptig gyntaf sy'n darparu SACT, PN a CIVAS hefyd yn Ne-ddwyrain Cymru, gyda hybiau pellach yn Ne-orllewin a Gogledd Cymru i ddilyn wedi hynny.

O fewn y rhaglen TrAMS bu ffocws cryf ar ddatblygu'r gweithlu fferyllol proffesiynol, gan ddarparu llwybrau gyrfa uwch ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa mewn gwasanaethau technegol trwy gwblhau'r cwrs Technoleg Fferyllol a Sicrwydd Ansawdd (PTQA). Bu ymdrech ar y cyd hefyd i arallgyfeirio'r gweithlu, yn enwedig i ddefnyddio rolau proffesiynol nad ydynt yn rhai fferyllol gan gynnwys ehangu rolau Technegydd Gweithgynhyrchu Gwyddoniaeth (SMT), gan alluogi gweithwyr fferyllol proffesiynol i dreulio mwy o amser yn darparu gwasanaethau sy'n wynebu cleifion. Mae mwy na chwarter y gweithlu presennol wedi cwblhau neu'n ymgymryd â hyfforddiant SMT. Mae'r Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr hefyd wedi galluogi defnydd ar raddedigion gwyddoniaeth nad ydynt yn fferylliaeth yng ngwasanaethau aseptig y GIG. Disgwylir i'r garfan gyntaf o hyfforddeion gwyddonol raddio yn ystod 2025, gan ddod ag arbenigedd ychwanegol i'r gweithlu gwasanaethau technegol yng Nghymru.

Trwy gydweithrediad cryf rhwng yr unedau gwasanaethau technegol fferylliaeth yng Nghymru a'r Ysgolion Fferylliaeth, mae ymchwil a datblygu mewn meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn sbarduno gwella gwasanaethau yn y meysydd arbenigol hyn o ofal cleifion.

Trwy ddefnyddio arbenigedd timau fferylliaeth sy'n gweithio mewn gwasanaethau technegol yng Nghymru, mae cleifion eisoes yn elwa o ddarparu gwasanaethau arloesol yn nes ar y cartref.

ENGHRAIFFT ARFER DA 14

Mae Therapi Gwrthficrobaidd Parenterol Cleifion Allanol (OPAT) yn wasanaeth sydd wedi cael ei gynniog gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ers 2020. Mae'r gwasanaeth hwn wedi galluogi cleifion i dderbyn eu triniaeth

gartref, neu yn y gymuned, yn hytrach na phrofi arosiadau hir yn yr ysbyty. Gyda'r model 'Ysbyty yn y Cartref' yn egwyddor allweddol o 'Gymru Iachach', bydd y galw a'r gofyniad ar gyfer y gwasanaeth hwn yn cynyddu yn y dyfodol.

Yn cyd-fynd â'r weledigaeth a amlinellir o fewn PDaHW, mae Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth yn BIPBC yn paratoi ar gyfer y newid patrwm hwn mewn triniaeth trwy ddefnyddio technolegau aseptig o'r radd flaenaf a lled-awtomeiddio i gynnig model cynhyrchu mewnol ar gyfer y dyfeisiau symudol sy'n ofynnol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Gan weithio gyda phartneriaid yn y diwydiant a Llywodraeth Cymru, mae'r prosiect hwn wedi datblygu dull gweithgynhyrchu graddadwy a chynaliadwy a fydd yn cynniog hyblygrwydd i glinigwyr, yn ogystal â llai o amser i driniaeth a gostyngiad mewn costau triniaeth.

CAMAU NESAF A 2028

Mae tystiolaeth dda yn dangos y risg o gam-gyfathrebu ac mae gwallau meddyginiaeth yn parhau i fod yn broblem pan fydd cleifion yn symud rhwng lleoliadau gofal. Mae hyn yn cynyddu'r risg o niwed i gleifion, canlyniadau gwaeth ac yn cynyddu'r risg yn sylweddol o dderbyn cleifion yn ôl i'r ysbyty.

Pan fydd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol yn rhan o'r Tim Amlddisgyblaethol ehangach, mae manteision sylweddol i gleifion. Mae timau fferylliaeth yn arwain ar atal a datrys problemau meddyginiaethau pan fydd cleifion yn pontio rhwng lleoliadau. Er enghraifft, mae manteision gwasanaeth DMR wedi'u gweld yn gadarn, canfu un astudiaeth o'r fath fod cael DMR ar ôl rhyddhau o'r ysbyty yn gysylltiedig â llai o risg o aildderbyn o fewn 40 diwrnod.²⁹

Yn sail i drosglwyddiadau gofal diogel y mae isadeiledd digidol priodol sy'n hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhyddhau electronig rhwng lleoliadau.

29. Archwilio cysylltiad yr adolygiad meddyginiaethau wrth ryddhau gyda ail-dderbyn cleifion i ysbytai trwy gysylltiad data arferol cenedlaethol yng Nghymru: astudiaeth garfan ôl-weithredol. Efi Mantzourani, Hamde Nazar, Catherine Phibben, Jessica Pang, Gareth John, Andrew Evans, Helen Thomas, Cheryl Way, Karen Hodson, British Medical Journal, Ar gael o: <https://bmjopen.bmj.com/content/10/2/e033551>

Mae technegwyr fferyllfa yn cyflawni gofal clinigol cynyddol i gleifion. P'un ai drwy hyrwyddo optimeiddio a chadw at feddyginiaethau mewn gofal sylfaenol, darparu gwasanaethau clinigol fel brechiadau, cysoni meddyginiaethau ar gyfer cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac wrth eu rhyddhau, a chynnig cwnsela i gleifion mewn clinigau cleifion allanol (er enghraifft clinigau clozapine).

Yn ystod y tair blynedd nesaf, bydd angen sicrhau mwy o gysondeb a thegwch o ran mynediad at ofal fferyllol.

INTEGREIDDIO I LWYBRAU GOFAL

Wrth i wasanaethau fferyllol clinigol ddatblygu ar draws pob lleoliad ac wrth i weithwyr fferylliaeth proffesiynol ddelio â llwythi achosion cleifion mwy cymhleth, mae'n hanfodol bod trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio'n briodol i mewn ac allan o wasanaethau.

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y gwasanaeth cywir gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol, bydd y llwybrau'n effeithlon ac yn gadarn ac yn ddi-dor i gleifion. Wrth adeiladu ar y cynlluniau peilot presennol a thrwy ddatblygu gwasanaethau rhagnodi, bydd fferyllwyr-ragnodwyr ar draws pob lleoliad yn cael eu galluogi ymhellach i gychwyn ceisiadau am brofion ac ymchwiliadau diagnostig.

AMCAN 2028

BYDD GWASANAETHAU FFERYLLIAETH YN CAEL EU HINTEGREIDDIO YMHELLACH I'R LLWYBRAU GOFAL. LLE MAE GWASANAETHAU FFERYLLIAETH YN CAEL EU CYNNWYS YN Y LLWYBR, I HWYLUSO MYNEDIAD PRYDLON AT OFAL GAN WEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL, BYDD Y LLWYBR YN CYNNWYS TREFNIADAU AR GYFER LLYWIO CLEIFION YN DDI-DOR AT Y DARPARWR GOFAL MWYAF PRIODOL PAN NA FYDD EU HANGHENION YN GALLU CAEL EU BODLONI GAN WEITHIWR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL.

ISAFU AR NIWED CYSYLLTIEDIG Â MEDDYGINIAETH

Rhaid i weithwyr fferylliaeth proffesiynol gael mynediad cyson a chyfredol at wybodaeth am ofal cleifion a meddyginiaethau i ganiatáu penderfyniadau gwybodus ac i wella canlyniadau cleifion. Rhaid i'r wybodaeth hon fod ar ffurfiau sy'n helpu i atal gwallau meddyginiaeth yn enwedig pan fydd cleifion yn symud rhwng lleoliadau gofal.

Y nod yn y tymor hir yw i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa ym mhob lleoliad gyrchu cofnodion meddygol electronig, gan hwyluso darparu gofal fferyllol diogel ac effeithiol i bob claf yng Nghymru.

AMCAN 2028

BYDDWN YN SICRHU BOD GAN BOB GWEITHIWR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL FYNEDIAD AT WYBODAETH DDIGIDOL AM OFAL POBL A'R MEDDYGYNIAETH SYDD GANDDYNT AR BRESGRIPSIWN, I WELLA CANLYNIADAU A GOSTWNG RISG O NIWED CYSYLLTIEDIG Â MEDDYGINIAETH GAN GYNNWYS PAN FYDD CLAF YN TROSGLWYDDO RHWNG LLEOLIADAU GOFAL.

- Byddwn yn rhoi mynediad i fferyllwyr cymunedol at Borth Clinigol Cymru ar gyfer archebu profion ac adolygu hanesion meddygol.
- Byddwn yn sicrhau bod y cofnod meddyginiaethau cenedlaethol a rennir ar gael mewn systemau ePMA ym mhob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.
- Byddwn yn cynyddu nifer y crynodebau digidol wrth ryddhau a rennir â fferyllfeydd cymunedol.

CYFLAWNI GWASANAETHAU FFERYLLIAETH TEG A CHYSON

Bu cynnydd sylweddol wrth ddatblygu gwasanaethau fferyllol ym mhob sector ymarfer ledled Cymru ers i'r PDaHW gael ei gyhoeddi a'i adnewyddu yn 2019 a 2022 yn y drefn honno. Mae cynnydd tuag at weledigaeth y proffesiynau ar

gyfer ymarfer fferyllol yn 2030 wedi'i hwyluso gan 'Presgripsiwn Newydd'⁶, 'Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol yn Ysbytai y GIG'⁷ yng Nghymru a newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddiol a phroffesiynol.

Fodd bynnag, er bod llawer mwy o gleifion yn elwa o fwy o fynediad at ofal fferyllol, gwyddom nad yw'r cynnig o reidrwydd yn gyson nac yn deg ledled Cymru.

Rhaid inni yn awr atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed a gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau a gofal fferyllol yn cael ei ddarparu'n fwy cyson ledled Cymru.

AMCAN 2028

BYDDWN YN HYRWYDDO GWERTH A CHYNALIADWYEDD O FEWN Y GIG, GAN SICRHOU BOD GWASANAETHAU FFERYLLIAETH AR DRAWS POB LLEOLIAD SY'N CYNNIG Y BUDD GORAU I GLEIFION A'R GIG YN CAEL EU DARPARU YN FWY CYSON LLE MAE CLEIFION A GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL EU HANGEN.

- Byddwn yn cynyddu nifer a chyfran y fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig y gwasanaeth rhagnodi mân salwch estynedig ac elfennau atal cenhedlu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol cenedlaethol.
- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa o fewn gofal eilaidd sy'n gweithio yn y meysydd clinigol blaenoriaeth a nodir yn yr [Adolygiad o wasanaethau fferylliaeth glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru](#) | [LLYW.CYMRU](#)

TRAWSNEWID MYNEDIAD AT FEDDYGINIAETHAU (TRAMS)

O fewn y tair blynedd nesaf, byddwn yn gwneud cynnydd sylweddol ar drawsnewid gwasanaethau aseptig. Gan ddechrau gyda chyfleuster radiofferylliaeth newydd yn Ne-ddwyrain Cymru, byddwn yn cefnogi sefydlu cyfleusterau aseptig rhanbarthol ledled Cymru ac yn symud i un model gweithredol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau technegol.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu, bydd prosiect mewn cydweithrediad â Gwyddoniaeth Gofal Iechyd AaGIC a rhaglenni gweithlu ehangach, yn archwilio cynllun mentora ar gyfer ymarferwyr lefel uwch a llwybrau datblygu gyrfa ar gyfer timau sy'n gweithio mewn gwasanaethau technegol fferylliaeth.

Bydd y rhaglen TrAMS yn gweithio gyda chydweithwyr ledled y DU i ddatblygu fframwaith addysg a chymhwysedd i fwydo i lwybrau gyrfa staff gwasanaethau technegol fferylliaeth, i safoni a thrawsnewid y cyfleoedd ar gyfer dysgu a gyrfaedd mewn gwasanaethau technegol.

Yn ogystal, mae'r newidiadau hyn yn creu cyfleoedd i ganoli gwasanaethau fferyllol eraill ymhellach a fyddai'n elwa ar ddull Cymru gyfan gan gynnwys gwasanaethau profi nwy meddygol, caffael a gofal yn y cartref.

AMCAN 2028

BYDDWN YN CANOLI GWASANAETHAU I WELLA CAPASITI, CYNLLUNIAU WRTH GEFN AC ANSAWDD AR GYFER MEDDYGINIAETH ARLOESOL AC ACHUB BYWYD GAN GYNNWYS THERAPIAU CANSER, AGENTAU DIAGNOSTIG, GWRTHFIOTIGAU MEWNWYTHIENOL A MAETHIAD PARENTEROL AR GYFER CLEIFION YNG NGHYMRU.

- Byddwn yn sefydlu gwasanaeth radiofferylliaeth rhanbarthol newydd ar gyfer De-ddwyrain Cymru.
- Byddwn yn datblygu cynllun cyflawni, gan ddefnyddio cyfleusterau canolog ac yn agosach at gyfleusterau cleifion ar gyfer Treialon Clinigol sy'n gofyn am baratoi aseptig yng Nghymru.
- Ceisiwn ddatblygu modelau 'Unwaith i Gymru' ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol eraill fel profion nwy meddygol, caffael meddyginiaeth heb drwydded a gofal yn y cartref.
- Byddwn yn datblygu cynllun ar gyfer gwella'r cyfleusterau a seilwaith ar gael i sicrhau bod cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch ar gael yn haws ym mhob rhan o Gymru.

6 Harneisio Arloesedd, Data a Thechnoleg

Ers i PDaHW gael ei gyhoeddi am y tro cyntaf mae 'Harneisio Arloesedd a Thechnoleg' wedi bod yn thema flaenoriaeth i alluogi cyflwyno uchelgeisiau'r proffesiynau. Drwy gydol ein hymgysylltiad, mae wedi bod yn amlwg bod angen gwelliannau yn y gwaith o gasglu a defnyddio data, boed hynny ar gyfer cynllunio gweithlu, gwella diogelwch cleifion neu ddangos canlyniadau cadarnhaol gofal fferyllol. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn ac i adlewyrchu argaeledd gwell data a'r datblygiadau mewn meysydd fel gwyddor data a'r defnydd o ddeallusrwydd artifisial yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r thema hon wedi'i diweddarau i gynnwys yn benodol data o fewn ei chwmpas. Yn ystod y tair blynedd nesaf byddwn yn ceisio gwneud gwelliannau drwy 'Harneisio Arloesedd, Data a Thechnoleg'.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y ddogfen hon, mae angen yr amgylchedd cywir ar dimau fferylliaeth a chefnogaeth i ddarparu'r gofal fferyllol gorau posibl. Mae defnyddio technoleg yn effeithiol a defnydd gwell o dechnoleg yn hanfodol i'r dyhead hwn.

Mae'r rhaglen Moddion Digidol genedlaethol³⁰ yn dwyn ynghyd y rhaglenni a'r prosiectau a fydd yn cynnig manteision dull rhagnodi cwbl ddigidol ym mhob lleoliad gofal yng Nghymru. Gyda'r egwyddor gyffredinol 'Gwneud rhagnodi, dosbarthu a rhoi meddyginiaethau ym mhobman yng Nghymru yn haws, yn fwy diogel, yn fwy effeithlon ac yn effeithiol, i gleifion a gweithwyr proffesiynol trwy ddigidol'.

Ers iteriad blaenorol PDaHW³ rydym wedi gweld cynnydd anhygoel yn y defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi cleifion a'r GIG, ac wrth i'r gwaith fynd rhagddo ar y rhaglenni dynodedig hyn, mae llawer mwy i'w gyflawni o hyd.

Mae cyflwyno'r Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig (EPS) o fewn gofal sylfaenol, yn caniatáu i ragnodwyr anfon presgripsiynau'n

electronig i fferyllfa enwebedig claf, gan wella effeithlonrwydd a diogelwch cleifion, a chefnogi ymdrechion i leihau ôl troed carbon fferylliaeth a gwella cynaliadwyedd. O fewn gofal eilaidd, mae ePMA yn sicrhau bod systemau cwbl ddigidol yn disodli'r angen am siartiau a phresgripsiynau meddyginiaethau papur, yn rhoi cymorth ar benderfyniadau i glinigwyr, a lleihau trawsgrifio a'r risg o wallau, gan wneud y broses gyfan yn fwy diogel, yn haws ac yn fwy effeithlon.

Mae llawer o gleifion bellach yn defnyddio Ap GIG Cymru i archebu presgripsiynau ailadroddus a dewis y fferyllfa y maent eisiau i ddosbarthu eu presgripsiynau. Mae'r ap yn galluogi cleifion i gymryd rôl fwy gweithredol wrth reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ac mae'n eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu cyflwr a'u meddyginiaethau. Bydd datblygiadau a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn nesaf yn galluogi pobl i olrhain eu lle ar y rhestr aros am driniaeth, gweld apwyntiadau ysbyty, a gofyn am ganlyniadau profion. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygiadau yn yr ap i wella effeithlonrwydd gweithredol a gwella darpariaeth gwasanaethau clinigol mewn fferyllfeydd y bydd angen i ni fanteisio arnynt.

Ym mhob sector, mae timau fferylliaeth yn gweithredu technolegau newydd i wella diogelwch cleifion ac effeithlonrwydd prosesau fferyllol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gosod Systemau Dosbarthu Awtomataidd a systemau Cofnod Meddyginiaeth Cleifion (PMR) sy'n hwyluso gwirio cywirdeb dolen gaeedig a gwiriadau clinigol presgripsiynau o bell. Mae sawl enghraifft o dimau fferylliaeth yn defnyddio technoleg arloesol yn ymarferol i ganiatáu mwy o amser i gael ei dreulio ar gyflawni gofal fferyllol. Er mwyn cefnogi mynediad cleifion at feddyginiaethau yn ystod adegau pan allai eu fferyllfa gymunedol fod ar gau, a gyda chefnogaeth cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, mae llawer o fferyllfeydd cymunedol wedi gosod pwyntiau casglu presgripsiynau awtomatig. Yn Nolgellau, Gogledd Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mewn partneriaeth ag ymchwilwyr o brifysgolion Bangor, Rhydychen ac Aberdeen,³¹ yn gwerthuso defnydd ar bwynt casglu

30. Moddion Digidol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ar gael o: <https://igdc.gig.cymru/ein-rhaglenni/moddion-digidol/>

31. Y Prosiect REMEDY, Prifysgol Bangor, Ar gael o: <https://www.bangor.ac.uk/cy/canolfan-ymchwil-gofal-cychwynnol-gogledd-cymru>

awtomatig sy'n caniatáu i gleifion gael gafael ar feddyginiaethau critigol yn yr ardal wledig iawn hon yn ystod cyfnod y tu allan i oriau, pan fydd mynediad at fferyllfeydd yn fwy cyfyngedig.

Mae therapïau uwch yn dod yn rhan o ofal arferol yn y GIG, gyda fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa yn meddu ar sgiliau unigryw sy'n gallu cefnogi eu paratoad a'u defnydd yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae mwy o fynediad at Gynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch (ATMP) a meddygaeth fanwl, gan gynnwys defnyddio profion ffarmacogenomig i arwain triniaeth, yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r GIG yng Nghymru ac yn cynnig buddion sylweddol i gleifion, yn lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth ac yn gwella canlyniadau therapiwtig. Mae'r Cynllun Cyflawni Genomeg³² i Gymru yn disgrifio gweledigaeth ar gyfer 'Gweithio gyda'n gilydd i harneisio potensial genomeg i wella iechyd, llesiant a ffyniant pobl Cymru.' Un o'i nodau allweddol yw datblygu cynllun cyflawni ffarmacogenomeg, a fydd yn gosod y camau ar gyfer mabwysiadu ffarmacogenomeg o fewn ymarfer clinigol arferol.

MYFYRIO

NODAU 2025

GWEITHREDU DATRYSIADAU RHAGNODI ELECTRONIG AR DRAWS LLEOLIADAU FFERYLLIAETH, GAN GYNNWYS CEFNOGI CLEIFION I GYRCHU GWASANAETHAU FFERYLLIAETH TRWY AP GIG CYMRU

Gwnaed cynnydd rhagorol i roi ar waith a mabwysiadu rhagnodi electronig; fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau mynediad teg at EPS ac ePMA ledled Cymru.

O fewn gofal eilaidd, mae pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd wedi dechrau neu byddant yn dechrau gweithredu ePMA yn fuan. Mae pob sefydliad ar bwynt gwahanol yn y siwrai at system sydd wedi'i digido'n llawn ac mae timau fferylliaeth yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddigido'r llwybr meddyginiaethau yng Nghymru. Rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa barhau i arwain y broses o gyflwyno a mabwysiadu rhagnodi electronig ym mhob ysbyty a rhaid i bob aelod o'r tîm fferylliaeth

addasu eu harferion gwaith i harneisio'r buddion a ddaw yn sgil ePMA.

O fewn gofal sylfaenol, ers anfon y presgripsiwn electronig cyntaf yng Nghymru a'i dosbarthu ym mis Tachwedd 2023, mae EPS ar gael mewn dros ddwy ran o dair o fferyllfeydd cymunedol a chwarter y practisau meddygon teulu, gyda thua 5.6 miliwn o eitemau presgripsiwn wedi'u trosglwyddo a'u dosbarthu'n ddigidol.³³

AMCAN 2025

SICRHAU BOD DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â MEDDYGINIAETH YN CAEL EU HADRODD A'U GWEITHREDU I WELLA DIOGELWCH CLEIFION

Mae Rhwydwaith Diogelwch Meddyginiaethau Cymru Gyfan drwy gydweithio â System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru wedi datblygu'r ffurflen digwyddiad meddyginiaeth o fewn Datix Cymru. Mae datblygu system effeithiol ar gyfer cipio digwyddiadau diogelwch meddyginiaeth yn allweddol i hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch lle y gall staff gofal iechyd adrodd am ddigwyddiadau'n effeithlon i sicrhau dysgu a gweithredu strategaethau lleihau risg i ddiogelwch diogelwch cleifion.

Lansiwyd Datix Cymru yn 2022 ac mae'n defnyddio'r disgrifyddion ar gyfer digwyddiadau diogelwch meddyginiaeth a ddatblygwyd gan Rwydwaith Diogelwch Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Mae'r rhwydwaith yn parhau i gydweithio â System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru ac mae cais am newid i wella'r swyddogaeth adrodd am wallau meddyginiaeth o fewn Datix Cymru wedi cael ei weithredu ac yn cael ei gymeradwyo.

Er gwaethaf y gwaith rhagorol sydd wedi digwydd i wella ansawdd a defnyddioldeb data ar ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau yng Nghymru, nid ydym yn defnyddio'r data hwn yn effeithiol eto i wella diogelwch a lleihau niwed.

32. Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru, llywodraeth Cymru (2022). Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-11/cynllun-cyflawni-genomeg-cymru.pdf>

33. Dangosfwrdd y Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, cyrchwyd data ar 03/09/2025. Ar gael o: <https://app.powerbi.com/view?r=eyJrJoiYjA1NmM0NWETM2U4Yi00NGU3LWJhMTQtYzE1YTAtOTdmNmVhliwidCl6ImJiNTYyOGI4LWUzMjgtNDA4MllhODU2LlTQzM2M5ZWJrJGZlZS9j>

ENGHRAIFFT ARFER DA 15

Cefnogi defnyddio meddalwedd gostwng gwallau dosau pwmp clyfar i leihau gwallau cyfradd drwytho

Mae gwallau wrth roi meddyginiaeth fewnwythiennol yn digwydd ar gyfradd o 27% yn yr ysbyty gyda'r mwyafrif o wallau wedi'u priodoli i raglennu pypiau â'r gyfradd drwytho anghywir. Mae pypiau clyfar sydd â meddalwedd lleihau gwallau dos (DERS) yn gwirio cyfraddau trwytho wedi'u rhaglennu yn erbyn terfynau dos uchaf ac isaf a chyfraddau trwytho a ddiffiniwyd ymlaen llaw ar gyfer y feddyginiaeth benodol (llyfrgell cyffuriau) a thrwy hynny yn gweithredu fel amddiffyniad yn erbyn gwallau cyfradd drwytho. Sefydlwyd [Llyfrgell Cyffuriau Cymru Gyfan a Gweithgor Pwmp Clyfar](#) i rannu arbenigedd a sicrhau llywodraethu cadarn wrth ddatblygu llyfrgelloedd cyffuriau pwmp clyfar i weithredu'r dechnoleg yn ddiogel i leihau gwallau. Datblygwyd cyfres o weithdrefnau gweithredu safonol gan y gweithgor i gefnogi gweithrediad DERS. Mae'r gwaith yn parhau i ddefnyddio data o'r pypiau clyfar i archwilio defnydd ar dechnoleg DERS a gwallau cyfraddau trwytho rhag diystyru terfynau a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

AMCAN 2025

CYNYDDU CAPASITI I WEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL DREULIO AR WEITHGAREDD SY'N WYNEBU'R CLAF TRWY GYFLWYNO EFFEITHLONNRWYDD WRTH DDOSBARTHU MEDDYGINIAETHAU

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol clinigol wedi cynyddu mewn gofal sylfaenol ac eilaidd ac mae cleifion yn elwa fwyfwy o arbenigedd timau fferylliaeth. Er mwyn creu mwy o gapasiti ar gyfer darparu gofal fferyllol, rhaid i weithwyr proffesiynol gofal gael eu cefnogi gan isadeiledd a phrosesau sy'n eu tynnu o weithgareddau'r gadwyn gyflenwi a gwella effeithlonrwydd y gweithgareddau hynny.

Mae cyflwyno systemau rhagnodi electronig mewn gofal sylfaenol ac ysbytai yn helpu i ddarparu system ddigidol ddi-bapur gyda'r gallu i olrhain presgripsiwn claf ar unrhyw adeg, gan leihau

amser yn lleoli neu'n trawsgrifio presgripsiynau papur a Chofnodion Rhoi Meddyginiaethau. Mae rhai systemau PMR eisoes yn gweithredu llifoedd gwaith digidol gan ddefnyddio technoleg gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI) a dilysu cod bar, nid yn unig i gefnogi diogelwch cleifion, ond i wella effeithlonrwydd. Mae systemau dosbarthu awtomataidd ar waith o fewn ysbytai a fferyllfeydd cymunedol i gefnogi dosbarthu meddyginiaethau, ac mae cynnydd yn y pwyntiau casglu presgripsiynau 24/7 yn cefnogi cleifion i gael mynediad at eu meddyginiaethau ar adeg sy'n gyfleus iddynt. Mae'r mesurau hyn a'r cyfleoedd a gyflwynir gan ddefnydd cynyddol o Ap y GIG yn cynnig sylfaen ar gyfer defnydd pellach o arloesiadau technolegol a gwell defnydd o ddata i wella gofal.

ENGHRAIFFT ARFER DA 16

Mae fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru yn gwreiddio atebion technolegol yn eu harfer i gynorthwyo prosesau gweithredol. Mae Dylan Jones, fferylllydd cymunedol yn Fferyllfa Llanidloes ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, wedi mabwysiadu dull cyfannol tuag at elfen weithredol eu fferylliaeth gymunedol. I gyflawni'r uchelgeisiau o fewn y contract fferylliaeth gymunedol ac i wasanaethu cymuned wledig yn ddigonol gydag ystod eang o wasanaethau fferyllol, mae'r fferyllfa wedi newid ei hagweddau gweithredol traddodiadol yn sylfaenol gan gynnwys y broses ddosbarthu.

Trwy ddefnyddio system PMR sy'n gwreiddio deallusrwydd artiffisial a dilysu cod bar, mae'r tîm fferyllol ehangach wedi croesawu'r dechnoleg newydd sy'n rhyddhau'r fferylllydd cyfrifol o'r broses ddosbarthu tra hefyd yn lleihau gwallau dosbarthu meddyginiaethau. Mae'r llif gwaith digidol wedi'i ailgynllunio yn caniatáu i'r fferylllydd gynnal y gwiriad clinigol, tra bod dilysu cod bar yn cael ei ddefnyddio i sicrhau cywirdeb. Gyda chefnogaeth hyfforddiant staff, datblygu a defnyddio sgiliau'r tîm cyfan yn well, mae Fferyllfa Llanidloes yn darparu ystod lawn o wasanaethau clinigol, gan gynnwys gwasanaeth rhagnodi annibynnol, gydag ymgynghoriadau yn amrywio o rhwng 300 a 400 bob mis.

Nid yn unig y mae cleifion yn elwa ar fwy o fynediad at wasanaethau clinigol, ond mae boddhad staff yn eu rôl hefyd wedi cynyddu, tra bod y fferyllfa yn gallu cynnig profiad i fyfyrwyr israddedig sy'n canolbwyntio'n fwy ar waith clinigol tra ar leoliadau hyfforddi.

Amlinella 'Cynllun Cyflawni Genomeg i Gymru'³² fanylion ar sut y bydd Partneriaeth Genomeg Cymru (GPW) yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, i harneisio datblygiadau yn nealltwriaeth a chymhwyso genomeg i drawsnewid strategaeth iechyd cyhoeddus a chyflawni gofal. Mewn ymateb i un o nodau allweddol Cynllun Cyflawni Genomeg i Gymru, mae AaGIC mewn partneriaeth â GPW wedi datblygu cynllun gweithlu strategol Genomeg.³⁴ Mae'r cynllun yn nodi map ffordd ar gyfer y tair blynedd nesaf gyda chymau gweithredu wedi'u nodi i gefnogi'r gweithlu gan gynnwys fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa, i wireddu potensial meddygaeth genomig er budd cleifion a'r boblogaeth.

Ym mis Gorffennaf 2024, sefydlwyd rôl Fferylllydd Ymgynghorol ar gyfer Genomeg a Ffarmacogenomeg i arwain camau gweithredu i alluogi a gwreiddio arfer gorau yn y defnydd o brofion ffarmacogenomig yng Nghymru. Mae Grŵp Ffarmacogenomeg Cenedlaethol (NPGG) a sefydlwyd yn 2022 yn cefnogi dull cenedlaethol amlddisgyblaethol, cydgysylltiedig o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau ffarmacogenomeg yng Nghymru.

Gall timau fferylliaeth ledled Cymru gael mynediad at gyflwyniad AaGIC i hyfforddiant ffarmacogenomeg, gyda chysiau ôl-raddedig mewn ffarmacogenomeg ar gael mewn sawl prifysgol yng Nghymru. Mae cyfanswm nifer y gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n ymgymryd â hyfforddiant ffarmacogenomig yn parhau i fod yn fach ond yn gymesur ag argaeledd y defnydd o brofion yn GIG Cymru. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o weithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrchu cysiau sy'n berthnasol i'w hymarfer i adeiladu eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn y maes pwysig hwn.

Mae mwy o gleifion yng Nghymru yn elwa o gyrchu profion ffarmacogenomig nag erioed o'r blaen. Yn 2020, Cymru fydd y rhan gyntaf o'r DU i ddarparu i bob claf canser sydd wedi'i drin â rhai mathau gemothorapi, sgrinio DPYD (dihydropyrimidine dehydrogenase) fel mater o drefn, i adnabod eu risg o sgil-ffeithiau difrifol a helpu i atal y rhain rhag digwydd. Yn 2025, mae astudiaeth ddichonoldeb i werthuso effaith gweithredu

profion genotype CYP2C19 cyn rhagnodi triniaeth clopidogrel o fewn gofal strôc ar y gweill. Yn ogystal, mae gan Gymru ddau safle astudio sy'n archwilio POCT ar gyfer y genyn MTRNR-1 mewn gwasanaethau newyddenedigol i asesu'r tueddiad i ototoxicity a achosir gan aminoglycosides.

ENGHRAIFFT ARFER DA 17

Prosiect Profi Genoteip CYP2C19

Mae prosiect dichonoldeb newydd wedi'i lansio yn Ysbyty Athrofaol Cymru (UHW), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i werthuso effaith profion genotype CYP2C19 ar y gwasanaeth cyn rhagnodi triniaeth clopidogrel mewn gofal strôc yn dilyn cyhoeddi Canllaw Diagnosteg NICE [DG59] ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r canllawiau'n argymhell profi genotype cyn rhagnodi clopidogrel i bob claf a brofodd strôc isgemig neu TIA i leihau'r risg o strôc rheolaidd a gwella canlyniadau clinigol.

Dechreuodd y profion ar 19 Mai 2025 ac fe'u harweinir gan Dr Sophie Harding, Fferylllydd Ymgynghorol ar gyfer Ffarmacogenomeg. Cyflwynir y prosiect mewn partneriaeth â Thim Strôc Ysbyty Athrofaol Cymru Gyfan, Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan, a'i gefnogi gan y Rhwydwaith Gweithredu Strôc (Perfformiad a Gwella GIG Cymru).

Mae'r prosiect yn asesu dichonoldeb integreiddio profion CYP2C19 i lifoedd gwaith clinigol arferol, gan ganolbwyntio ar amseroedd troi, cydlynu rhwng labordai a thimau clinigol, ac effaith gyffredinol ar ofal cleifion. Drwy ddarparu mwy o therapi gwrthblatennau wedi'i dargedu, mae'r prosiect yn anelu at archwilio'r ffordd orau o roi'r prawf hwn ar waith mewn ymarfer clinigol arferol yng Nghymru.

Y tu hwnt i fuddion cleifion, mae'r fenter hefyd yn cefnogi datblygu galluoedd tim amlddisgyblaethol wrth ddarparu meddygaeth fanwl. Mae'n cynnig dysgu gwerthfawr ar logisteg gweithredu, gwneud penderfyniadau clinigol, a chydweithio rhyngbroffesiynol sy'n gosod y sylfaen ar gyfer cyflwyno ehangach ar draws GIG Cymru.

Mae'r cynllun peilot hwn yn cyd-fynd â Chynllun Cyflawni Genomeg Llywodraeth Cymru i ddatblygu prif ffyrddio genomeg drwy wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau ar gyfer cleifion yng Nghymru.

34. Cynllun gweithlu strategol ar gyfer genomeg 2024/25 -2027/28, AaGIC, Ar gael o: <https://aagic.gig.cymru/gweithlu/cynllun-gweithlu-strategol-ar-gyfer-genomeg/>

CAMAU NESAF 2028

Bydd gwell defnydd o arloesedd, data a thechnoleg yn gwella canlyniadau cleifion ac yn cefnogi cynyddu capasiti fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa i ddarparu gofal fferyllol. Yn ystod y tair blynedd nesaf byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed tuag at amcanion 2025 trwy sicrhau bod y gweithlu fferylliaeth yn cael ei rymuso i gofleidio'r cyfleoedd y mae technolegau arloesol yn eu darparu wrth gael eu cefnogi i ddatblygu eu gallu digidol eu hunain.

Bydd y rhaglen Moddion Digidol³⁰ yn cyflymu mabwysiadu technoleg ddigidol i gefnogi cyflawni gofal effeithiol gan weithwyr fferylliaeth proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddefnyddio cofnod meddyginiaethau unigol cynhwysfawr ar gyfer pobl yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi rhyddhau amser i weithwyr fferyllol proffesiynol ei dreulio ar ofal cleifion uniongyrchol, i wella'r broses o wneud penderfyniadau sy'n cael ei gyrru gan ddata, ac i wella canlyniadau gofal, byddwn yn dechrau archwilio sut y gall deallusrwydd artifisial gefnogi gweithrediad a gweithgareddau fferylliaeth glinigol.

Bydd fferylliaeth ar flaen y gad o ran y defnydd ehangach o ffarmacogenomeg o fewn ymarfer clinigol dan arweiniad cyngor cadarn ar ddefnydd cost-effeithiol o brofion ffarmacogenomig.

Bydd fferyllwyr a thechnegwyr fferylliaeth yn cefnogi mwy o bobl yng Nghymru i allu cyrchu ATMP a Chynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwilol Therapiau Uwch (ATIMPs) trwy gyfleusterau aseptig newydd ac wedi'u hadnewyddu neu brosesau cydymffurfio ag arfer gweithgynhyrchu da (GMP) a gyflawnir yn agos at gleifion.

RHAGNODI ELECTRONIG

Bydd y rhaglen Moddion Digidol³⁰ yn sicrhau mai rhagnodi electronig fydd y sefyllfa ddiofyn ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau ym mhob maes ymarfer. Bydd EPS ar gael i bob meddyg teulu a fferyllfa gymunedol ac mewn gofal eilaidd, bydd siartiau meddyginiaethau a phresgripsiynau papur yn cael eu disodli gan systemau ePMA cwbl ddigidol a rhyngweithredu.

AMCAN 2028

BYDDWN YN GWEITHREDU RHAGNODI ELECTRONIG AR DRAWS CYMRU I GYNYDDU CYNHYRCHIAETH, TRAWSNEWID RÔL GWEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL A CHEFNOGI RHAGNODI, DOSBARTHU A RHOI MEDDYGINIAETH YN DDIOGEL AC YN EFFEITHLON I GLEIFION.

- Bydd pob fferyllfa gymunedol yng Nghymru yn cyrchu presgripsiynau drwy'r gwasanaeth rhagnodi electronig.
- Bydd pob practis meddygon teulu yng Nghymru yn anfon presgripsiynau gan ddefnyddio'r gwasanaeth rhagnodi electronig gyda chleifion sy'n gallu dewis y fferyllfa fwyaf priodol neu gyfleus ar eu cyfer bob tro y bydd eu presgripsiwn yn cael ei ddosbarthu.
- Bydd Rhagnodi Electronig a Rhoi Meddyginiaethau yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ym mhob ysbyty yng Nghymru.

DIOGELWCH CLEIFION A DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â MEDDYGINIAETH

Mae data am ddigwyddiadau diogelwch meddyginiaeth yn cael eu casglu gan bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd sy'n cwmpasu gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd a thrydyddol. Cesglir y data hwn yn bennaf drwy'r adroddiadau a wnaed i System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru (DatixCymru). Mae gwybodaeth ychwanegol am ddiogelwch meddyginiaethau ar gael gan ddangosyddion rhagnodi a diogelwch cenedlaethol, adroddiadau adwaith niweidiol i gyffuriau a wnaed i Ganolfan Cerdyn Melyn Cymru a'r dangosfwrdd diogelwch meddyginiaethau sy'n archwilio derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â niwed sy'n perthyn i feddyginiaethau. Ar hyn o bryd mae data adrodd ar ddigwyddiadau yn cael eu dal a'u prosesu gan wahanol systemau a sefydliadau unigol ac nid oes golwg genedlaethol o ddigwyddiadau diogelwch meddyginiaethau i hwyluso rhannu a dysgu. Bydd datblygu system ddigidol genedlaethol ar gyfer rhannu dysgu o ddigwyddiadau diogelwch meddyginiaeth yn darparu dull mwy cydlynol ar gyfer adnabod risgiau gwirioneddol a phosibl o ddefnyddio meddyginiaethau, datblygu strategaethau lleihau risg, a dysgu ar draws y sector a'r sefydliad gyda buddion cymesur ar gyfer diogelwch cleifion.

AMCAN 2028

BYDDWN YN DATBLYGU SYSTEM DDIGIDOL NEWYDD I HWYLUSO A RHANNU DYSG O DDIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â DIGWYDDIADAU, I OSTWNG NIWED CYSYLLTIEDIG Â MEDDYGINIAETH A GWELLA DIOGELWCH CLEIFION.

FFARMACOGENOMEG A CHYNNYRCH MEDDYGOL THERAPI UWCH

Mae gan brofion ffarmacogenomig y potensial i wella effeithiolrwydd a diogelwch meddyginiaeth yn sylweddol trwy deilwra triniaeth i gyfansoddiad genetig unigolyn. Cefnogir gweithwyr fferylliaeth proffesiynol ymhellach i wella eu hymwybyddiaeth o arbenigedd mewn ffarmacogenomeg er budd cleifion yng Nghymru.

Bydd cynlluniau ar gyfer cynllun cyflenwi ffarmacogenomig yn cael eu gwireddu, yn cyd-fynd ag amcanion allweddol Cynllun Cyflawni Genomeg i Gymru.³² Bydd y cynllun yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd ar gyfer mabwysiadu ffarmacogenomeg i ymarfer clinigol arferol yng Nghymru.

Mae Therapïau Uwch, y term ar y cyd ar gyfer dosbarth newydd o feddyginiaethau biolegol sy'n seiliedig ar enynnau, celloedd neu feinwe, yn cynnig cyfleoedd arloesol ar gyfer trin clefydau sydd hyd yma wedi'u hystyried yn amhosibl eu trin. Mae gan Therapïau Uwch y potensial i wella canlyniadau clinigol yn sylweddol mewn ystod o arwyddion clefydau gan gynnwys clefydau prin le nad oes unrhyw opsiynau triniaeth neu opsiynau cyfyngedig ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn i fferylliaeth yng Nghymru gyfrannu at wneud y triniaethau arloesol hyn ar gael, mae angen gwaith i baratoi sefydliadau, y gweithlu a'r ystâd fferyllol i sicrhau bod y gofynion rheoleiddio ar gyfer y triniaethau hyn yn cael eu bodloni.

AMCAN 2028

BYDDWN YN SICRHU BOD GAN WEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL Y WYBODAETH, YR ARBENIGEDD A'R CYFLEUSTERAU SYDD EU HANGEN ARNYNT I ARWAIN A CHYMRYD RHAN WRTH

LEOLI PROFION FFARMACOGENOMEG A THERAPÏAU UWCH.

- Byddwn yn cyhoeddi cynllun ffarmacogenomeg cenedlaethol.
- Byddwn yn adnabod arweinydd ffarmacogenomeg ym mhob bwrdd iechyd ac yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sydd wedi cwblhau hyfforddiant mewn ffarmacogenomeg.
- Byddwn yn datblygu cynllun ar gyfer gwella'r cyfleusterau a seilwaith ar gael i sicrhau bod cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch ar gael yn haws ym mhob rhan o Gymru.

DEFNYDDIO TECHNOLEG, DATA A DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

Rhaid i'r proffesiynau fferylliaeth wneud mwy i gofleidio a gwreiddio'r defnydd o dechnoleg i gefnogi darparu gofal fferyllol. Mae datblygiadau mewn arloesi a thechnoleg yn digwydd ar gyflymder ond yn aml nid yw'r cyflymder yn llinol. Fel y gwelsom gydag argaeledd a gallu deallusrwydd artiffisial, weithiau mae camau breision yn cael eu cymryd mewn cyfnod byr iawn o amser. Er bod llawer o fferyllfeydd yn defnyddio technoleg i gefnogi prosesau effeithlon, nid yw llawer yn gwneud hynny ac nid yw'r defnydd o dechnolegau, data a deallusrwydd artiffisial i arwain gofal fferyllol yn eang. Trwy ddefnyddio AI a dilysu cod bar mewn systemau PMR, i systemau dosbarthu awtomataidd a phwyntiau casglu presgripsiynau, rhaid i'r technolegau hyn ddod yn gyffredin, a rhaid i'r proffesiynau ddod yn fwy cyfarwydd â mabwysiadu datblygiadau mewn technoleg yn ystod oes y ddogfen hon ac yn hyderus wrth ei mabwysiadu.

Rhaid i weithredu lloedd gwaith digidol, systemau dosbarthu dolen gaeedig, roboteg, lled-awtomatig ac awtomatig ddod yn fwy prif ffrwd yn y proffesiwn, fel y dylai defnydd ar AI hefyd. Amlinella polisi 'Deallusrwydd Artiffisial mewn Fferylliaeth' RPS³⁵ rywfaint o'r cwmpas ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ymarfer fferyllol, a sut mae ganddo'r potensial i drawsnewid y ffordd y mae fferyllwyr a thimau fferylliaeth yn gweithio. Byddwn yn gweld mabwysiadu pellach ar AI i gefnogi diogelwch cleifion, cynorthwyo i wneud penderfyniadau ac awtomeiddio prosesau gweithredol a gweinyddol.

AMCAN 2028

BYDDWN YN DEFNYDDIO'N FWY EFFEITHIOL AWTOMATIAETH, TECHNOLEG, DATA, A DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I WELLA CYNHYRCHAETH A RHYDDHAU AMSER I WEITHWYR FFERYLLIAETH PROFFESIYNOL GYFLAWNI GOFAL UNIONGYRCHOL I'R CLAF SYDD EI ANGEN FWYAF.

- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllfeydd cymunedol sydd wedi gweithredu datrysiadau awtomataidd (e.e. robotiaid dosbarthu a chabinetau casglu presgripsiynau) i wella cynhyrchiant.
- Byddwn yn defnyddio data sydd ar gael o ganlyniad i weithredu ePMA mewn ysbytai i gyflwyno dull sy'n seiliedig ar anghenion i flaenoriaethu a darparu gofal fferyllol ar gyfer cleifion mewnol ysbyty.
- Byddwn yn adnabod ac yn gweithredu cyfleoedd i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewn fferyllfeydd ysbytai.



³⁵. Deallusrwydd artiffisial (AI) mewn Fferylliaeth, RPS (2025).
Ar gael o: <https://www.rpharms.com/recognition/all-our-campaigns/policy-a-z/ai#0>

7 Atodiad 1

Amcanion 2028

CYFOETHOGI PROFIAD Y CLAF

Bydd fferyllfeydd cymunedol yn dod yn hybiau llesiant cymunedol yn cynnig ystod o wasanaethau diogelwch a gwella iechyd, lle mae pob aelod o'r tîm fferylliaeth wedi'u grymuso i hyrwyddo iechyd a llesiant trwy'r holl ryngweithiadau â chleifion a'r cyhoedd.

- Byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar yr hyn y mae atal yn ei olygu yng nghyd-destun fferylliaeth gymunedol.
- Byddwn yn cynyddu cyfran y fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau diogelu iechyd a gwella iechyd blaenoriaeth a chynyddu gweithgaredd gwella a diogelu iechyd.
- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr, technegwyr fferyllfa a staff fferyllol sy'n gallu cefnogi pobl i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd a'u llesiant.

Bydd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol yn arwain yr ymdrech i ostwng effaith amgylcheddol meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol, gyda thimau fferylliaeth yn ymroi i ymgysylltu â gostwng ôl troed carbon a gwella gwerth a chanlyniadau amgylcheddol y GIG.

- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllfeydd cymunedol sy'n cymryd rhan yng nghynllun Gofal Sylfaenol Gwyrddach Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Byddwn yn cefnogi fferyllfeydd cymunedol i weithredu mesurau sy'n lleihau eu hól troed carbon.
- Byddwn yn cefnogi fferyllwyr a thimau fferylliaeth sy'n gweithio mewn ysbytai i ymgysylltu â Chanllawiau a Phecyn Cymorth Fferylliaeth Gwyrddach RPS.
- Byddwn yn gweithio gyda rhagnodwyr eraill o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd i leihau effaith amgylcheddol meddyginiaethau a nwyon meddygol.

Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sy'n darparu arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol, gan wella defnydd meddyginiaethau a chanlyniadau cleifion fel aelodau gweithredol o rwydweithiau clinigol strategol GIG Cymru gweithredol wrth barhau i adeiladu galluogrwydd arweinyddiaeth yn y gweithlu.

- Byddwn yn sicrhau bod cyngor fferyllol arbenigol ar gael i rwydweithiau clinigol strategol y GIG a bod gweithiwr fferylliaeth proffesiynol a enwir yn cyfrannu at eu gwaith ym mhob rhwydwaith yng Nghymru.
- Byddwn yn sicrhau bod gan ddarpar arweinwyr fferyllol fynediad at ystod o gyfleoedd fferylliaeth, amlddisgyblaethol ac ar draws y sector cyhoeddus ar gyfer datblygu arweinyddiaeth.

Byddwn yn cynyddu cyfraniad fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa yng Nghymru i dangos budd gofal fferyllol a gwasanaethau fferylliaeth trwy gymryd rhan a lledaenu ymchwil, gwerthuso gwasanaeth a gweithgareddau gwella ansawdd, wrth barhau i adeiladu capasiti a galluogrwydd ymchwil yn y gweithlu.

- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i dimau fferylliaeth cymunedol gefnogi ymchwil a gwerthuso gwasanaethau sy'n dangos effeithiolrwydd yr ystod gynyddol o wasanaethau clinigol sydd ar gael o fferyllfeydd.
- Byddwn yn datblygu ystorf dystiolaeth i goladu a lledaenu canfyddiadau ymchwil, gwerthuso gwasanaethau a gweithgareddau gwella ansawdd a wneir gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa yng Nghymru.
- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa gyda sgiliau a galluogrwydd ymchwil.

DATBLYGU'R GWEITHLU FFERYLLIAETH

Bydd Sefydliadau Addysg Uwch a chyflogwyr yng Nghymru, wedi'u cefnogi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yn cynnig gyrfaedd fferylliaeth sy'n hyrwyddo recriwtio a chadw gweithwyr fferylliaeth proffesiynol gyda'r sgiliau y mae cleifion a'r GIG yng Nghymru eu hangen, ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth a diwylliant pobl Cymru.

- Byddwn yn cynyddu nifer y disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol yng Nghymru sy'n dilyn gyrfa mewn fferylliaeth yng Nghymru.
- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sy'n ymgymryd â hyfforddiant sylfaen yng Nghymru a chyfran o'n fferyllwyr sylfaen a hyfforddodd yn un o ysgolion fferylliaeth Cymru.
- Byddwn yn lleihau cyfran y swyddi fferylliaeth a thechnegwyr fferyllol heb eu llenwi ym mhob sector ymarfer.
- Byddwn yn cynyddu cyfran y gweithlu fferylliaeth sy'n gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd gyda chleifion a'r cyhoedd yn y Gymraeg

Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o hyd a lled y gweithlu fferylliaeth yng Nghymru gan ddefnyddio data i ddatblygu gweithlu sy'n bodloni angen pobl am ofal fferyllol a gwasanaethau fferylliaeth.

- Byddwn yn gweithredu'r offeryn adrodd cenedlaethol ar gyfer y gweithlu yn llawn mewn fferylliaeth gymunedol ac yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei darparu, ynghyd â'r wybodaeth y mae'r offeryn adrodd yn ei darparu ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sy'n gweithio ym mhreactis meddygon teulu.
- Byddwn yn cynnal asesiad blynyddol o weithlu fferylliaeth ysbytai yn erbyn yr asesiad gwaelodlin a gynhaliwyd yn 2025 yn unol â'r blaenoriaethau yn [Adolygiad o wasanaethau fferylliaeth clinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#).

Byddwn yn cytuno ar lwybrau gyrfaol ôl-gofrestru Cymru gyfan ar gyfer holl weithwyr fferylliaeth proffesiynol mewn rolau clinigol yn ymdrin â phob sector o arfer fferylliaeth, gan ddarparu ystod o gyfleoedd i aelodau ehangach timau fferylliaeth i wella eu galluogrwydd, ehangder eu hymarfer, a chymryd rolau newydd.

- Byddwn yn ymgynghori, cyhoeddi a gweithredu fframwaith gyrfa ôl-gofrestru Cymru gyfan ar gyfer pob fferylllydd sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.
- Byddwn yn dechrau datblygu fframwaith gyrfa ôl-gofrestru ar gyfer technegwyr fferyllfa.
- Byddwn yn cynnig mwy o gyfleoedd i dimau fferylliaeth mewn ysbytai i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau a ddisgrifir yn [Adolygiad o wasanaethau fferylliaeth clinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#).

- Byddwn yn cwblhau blaenolwg o ddeng mlynedd o ofynion cymhwysedd gweithlu fferyllfeydd cymunedol ac yn defnyddio hyn i ddiffinio anghenion addysg, hyfforddiant a datblygu gyrfa fferyllwyr, technegwyr fferyllfa a gweithlu ehangach fferyllfeydd cymunedol.

Byddwn yn gweithredu'n llawn y safonau ar gyfer *sicrwydd cymhwysedd rhagnodwyr annibynnol ac atodol* ar gyfer pob fferyllfydd yng Nghymru ac yn sefydlu prosesau sy'n sicrhau bod y wybodaeth a gesglir o weithredu'r safonau hyn yn cael eu defnyddio i roi i fferyllwyr-ragnodwyr er mwyn iddynt gael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i uchafu ar ddefnydd, diogelwch ac effeithlonrwydd meddyginiaethau trwy ragnodi a dad-ragnodi.

- Byddwn yn cytuno ac yn gweithredu dull cenedlaethol i sicrhau bod pob fferyllfydd ôl sylfaen sy'n gweithio mewn ysbyty GIG neu'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau ysbyty'r GIG yn y gymuned yng Nghymru yn gallu rhagnodi yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Byddwn yn cyflwyno'r defnydd o e-bortffolio gan bob fferyllfydd-ragnodwr i ddangos cymhwysedd parhaus ac fel offeryn i wella ymarfer rhagnodi.
- Bydd yr holl fferyllwyr-ragnodwyr yn cadarnhau eu cwmpas ymarfer rhagnodi yn flynyddol a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi cyflogwyr a fferyllwyr-ragnodwyr i ehangu eu cwmpas ymarfer i ddiwallu anghenion y GIG a phobl yng Nghymru.

GOFAL FFERYLLLOL DI-DOR

Bydd gwasanaethau fferylliaeth yn cael eu hintegreiddio ymhellach i'r llwybrau gofal. Lle mae gwasanaethau fferylliaeth yn cael eu cynnwys yn y llwybr, i hwyluso mynediad prydlon at ofal gan weithwyr fferylliaeth proffesiynol, bydd y llwybr yn cynnwys trefniadau ar gyfer llywio cleifion yn ddi-dor at y darparwr gofal mwyaf priodol pan na fydd eu hanghenion yn gallu cael eu bodloni gan weithiwr fferylliaeth proffesiynol.

Byddwn yn sicrhau bod gan bob gweithiwr fferylliaeth proffesiynol fynediad at wybodaeth ddigidol am ofal pobl a'r feddyginiaeth sydd ganddynt ar bresgripsiwn, i wella canlyniadau a gostwng risg o niwed cysylltiedig â meddyginiaeth gan gynnwys pan fydd claf yn trosglwyddo rhwng lleoliadau gofal.

- Byddwn yn rhoi mynediad i fferyllwyr cymunedol at Borth Clinigol Cymru ar gyfer archebu profion ac adolygu hanesion meddygol.
- Byddwn yn sicrhau bod y cofnod meddyginiaethau cenedlaethol a rennir ar gael mewn systemau ePMA ym mhob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.
- Byddwn yn cynyddu nifer y crynodebau digidol wrth ryddhau a rennir â fferyllfeydd cymunedol.

Byddwn yn hyrwyddo gwerth a chynaliadwyedd o fewn y GIG, gan sicrhau bod gwasanaethau fferylliaeth ar draws pob lleoliad sy'n cynnig y budd gorau i gleifion a'r GIG yn cael eu darparu yn fwy cyson lle mae cleifion a gweithwyr iechyd proffesiynol eu hangen.

- Byddwn yn cynyddu nifer a chyfran y fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig y gwasanaeth rhagnodi mân salwch estynedig ac elfennau atal cenhedlu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol cenedlaethol.
- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa o fewn gofal eilaidd sy'n gweithio yn y meysydd clinigol blaenoriaeth a nodir yn yr [Adolygiad o wasanaethau fferylliaeth glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

Byddwn yn canoli gwasanaethau i wella capasiti, cynlluniau wrth gefn ac ansawdd ar gyfer meddyginiaeth arloesol ac achub bywyd gan gynnwys therapïau canser, agentau diagnostig, gwrthfotigau mewnwythiennol a maethiad parenterol ar gyfer cleifion yng Nghymru.

- Byddwn yn sefydlu gwasanaeth radiofferylliaeth rhanbarthol newydd ar gyfer De-ddwyrain Cymru.
- Byddwn yn datblygu cynllun cyflawni, gan ddefnyddio cyfleusterau canolog ac yn agosach at gyfleusterau cleifion ar gyfer Treialon Clinigol sy'n gofyn am baratoi aseptig yng Nghymru.
- Ceisiwn ddatblygu modelau 'Unwaith i Gymru' ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol eraill fel profion nwy meddygol, caffael meddyginiaeth heb drwydded a gofal yn y cartref.
- Byddwn yn datblygu cynllun ar gyfer gwella'r cyfleusterau a seilwaith ar gael i sicrhau bod cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch ar gael yn haws ym mhob rhan o Gymru.

HARNEISIO ARLOESED, DATA A THECHNOLEG

Byddwn yn gweithredu rhagnodi electronig ar draws Cymru i gynyddu cynhyrchaeth, trawsnewid rôl gweithwyr fferylliaeth proffesiynol a chefnogi rhagnodi, dosbarthu a rheoli meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithlon i gleifion.

- Bydd pob fferyllfa gymunedol yng Nghymru yn cyrchu presgripsiynau drwy'r gwasanaeth rhagnodi electronig.
- Bydd pob practis meddygon teulu yng Nghymru yn anfon presgripsiynau gan ddefnyddio'r gwasanaeth rhagnodi electronig gyda chleifion sy'n gallu dewis y fferyllfa fwyaf priodol neu gyfleus ar eu cyfer bob tro y bydd eu presgripsiwn yn cael ei ddosbarthu.
- Bydd Rhagnodi Electronig a Rhoi Meddyginiaethau yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ym mhob ysbyty yng Nghymru.

Byddwn yn datblygu system ddigidol newydd i hwyluso a rhannu dysg o ddigwyddiadau cysylltiedig â digwyddiadau, i ostwng niwed cysylltiedig â meddyginiaeth a gwella diogelwch cleifion.

Byddwn yn sicrhau bod gan weithwyr fferylliaeth proffesiynol y wybodaeth, yr arbenigedd a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i arwain a chymryd rhan wrth leoli profion ffarmacogenomeg a therapïau uwch.

- Byddwn yn cyhoeddi cynllun ffarmacogenomeg cenedlaethol.
- Byddwn yn adnabod arweinydd ffarmacogenomeg ym mhob bwrdd iechyd ac yn cynyddu nifer y fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa sydd wedi cwblhau hyfforddiant mewn ffarmacogenomeg.
- Byddwn yn datblygu cynllun ar gyfer gwella'r cyfleusterau a seilwaith ar gael i sicrhau bod cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch ar gael yn haws ym mhob rhan o Gymru.

Byddwn yn defnyddio'n fwy effeithiol awtomatiaeth, technoleg, data a deallusrwydd artiffisial i wella cynhyrchaeth a rhyddhau amser i weithwyr fferylliaeth proffesiynol gyflawni gofal uniongyrchol i'r claf sydd ei angen fwyaf.

- Byddwn yn cynyddu nifer y fferyllfeydd cymunedol sydd wedi gweithredu datrysiadau awtomataidd (e.e. robotiaid dosbarthu a chabinetau casglu presgripsiynau) i wella cynhyrchiant.
- Byddwn yn defnyddio data sydd ar gael o ganlyniad i weithredu ePMA mewn ysbytai i gyflwyno dull sy'n seiliedig ar anghenion i flaenoriaethu a darparu gofal fferyllol ar gyfer cleifion mewnol ysbyty.
- Byddwn yn adnabod ac yn gweithredu cyfleoedd i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewn fferyllfeydd ysbytai.

Y GYMDEITHAS FFERYLLOL FRENHINOL

[https://www.rpharms.com/wales/
pharmacy-delivering-a-healthier-wales](https://www.rpharms.com/wales/pharmacy-delivering-a-healthier-wales)

CYHOEDDWDYD GAN

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol 2025
Uned 2 Ash Tree Court, Woodsy Close
Parc Busnes Porth Caerdydd,
Pontprennau CF23 8RW

